*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Cymru, fel y'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 5 Mehefin 2014 [Bil ***]*

# BIL CYMRU

---

# NODIADAU ESBONIADOL

## CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â Bil Cymru fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin ar 5 Mehefin 2014. Maent wedi'u paratoi gan Swyddfa Cymru er mwyn helpu pobl sy'n darllen y Bil ac i gyfrannu at y drafodaeth arno. Nid ydynt yn rhan o'r Bil ac nid ydynt wedi'u cymeradwyo gan y Senedd.

2. Bydd angen darllen y Nodiadau ochr yn ochr â'r Bil. Nid ydynt ac nid yw'n fwriad iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Bil. Felly os yw'n ymddangos nad oes angen rhoi eglurhad neu wneud sylw ynghylch cymal neu ran o gymal, ni wneir hynny.

## CRYNODEB

3. Cyflwynwyd Bil Cymru yn wreiddiol yn Nhŷ'r Cyffredin ar 20 Mawrth 2014 ac mae wedi'i drosglwyddo o Sesiwn Seneddol flaenorol o dan Reol Sefydlog Rhif 80A. Yn y sesiwn flaenorol, cwblhawyd trafodaethau ym Mhwyllgor y Tŷ Cyfan yn Nhŷ'r Cyffredin, ond nid oedd y trafodaethau ar Adrodd wedi cychwyn. Mae'r Bil yn cynnwys diwygiadau y cytunwyd arnynt yn y Pwyllgor.

4. Mae'r Bil yn gwneud newidiadau yn y trefniadau etholiadol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad"), yn gweithredu nifer o'r argymhellion sydd yn adroddiad cyntaf y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru ("Comisiwn Silk") ac yn gwneud nifer o newidiadau technegol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 ("DLlC 2006") ac mewn deddfwriaeth arall er mwyn diweddaru gweithrediadau'r setliad datganoli yng Nghymru.

## CEFNDIR

5. Ym mis Mai 2012 cyhoeddodd y Llywodraeth y "Papur Gwyrdd ar drefniadau etholiadol y dyfodol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru" a oedd yn gofyn am sylwadau ynghylch nifer o newidiadau arfaethedig yn y ffordd o ethol y Cynulliad. Ar ôl ymgynghori â'r cyhoedd, cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ym Mawrth 2013 y byddai'r Llywodraeth yn cyflwyno deddfwriaeth i newid hyd tymor Cynulliad o bedair blynedd i bum mlynedd, i ddileu'r gwaharddiad ar ymgeisydd mewn etholiad i'r Cynulliad rhag sefyll mewn etholaeth ac mewn rhanbarth ac i roi terfyn ar yr arfer

gan Aelodau Cynulliad ("ACau") o eistedd hefyd yn Nhŷ'r Cyffredin.

6. Yn Hydref 2011 roedd y Llywodraeth wedi sefydlu Comisiwn Silk i adolygu'r trefniadau ariannol a chyfansoddiadol presennol yng Nghymru. Ym mis Tachwedd 2012, cyhoeddwyd adroddiad cyntaf y Comisiwn a oedd yn gwneud 33 o argymhellion i wella atebolrwydd ariannol y Cynulliad a Llywodraeth Cymru. Rhoddodd y Llywodraeth ei hymateb ffurfiol ym mis Tachwedd 2013, gan dderbyn y rhan fwyaf o argymhellion y Comisiwn.

7. Cyhoeddwyd fersiwn ddrafft o'r Bil ar 18 Rhagfyr 2013 a bu'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig yn craffu arno cyn y broses ddeddfu. Cyhoeddwyd adroddiad y pwyllgor ar 28 Chwefror 2014. Ymatebodd y Llywodraeth i'r Pwyllgor ar 20 Mawrth.

## CYMHWYSIAD A RHYCHWANT TIRIOGAETHOL

8. Er bod prif ddarpariaethau'r Bil yn cynnwys y cyfan o'r Deyrnas Unedig, bydd yn cael ei gymhwyso'n ymarferol i faterion sy'n ymwneud â Chymru yn unig. Yr eithriad i hyn yw cymal 10 sy'n uniongyrchol berthnasol i'r Alban, ond sy'n ganlyniadol i'r newidiadau yng nghyswllt Cymru.

## SYLWADAU AR GYMALAU (AC ATODLENNI)

## RHAN 1: Y CYNULLIAD A LLYWODRAETH CYMRU

### Cymal 1: Amlder etholiadau cyffredinol arferol y Cynulliad

9. Cafodd cynnig ei basio gan y Cynulliad ar 16 Mawrth 2011 a oedd yn galw am ohirio ei etholiadau am un flwyddyn er mwyn peidio â gwrthdaro ag etholiadau i Senedd San Steffan. Rhoddwyd hyn ar waith drwy adran 5 o Ddeddf Seneddau Tymor Penodol 2011 drwy symud dyddiad etholiadau nesaf y Cynulliad o 7 Mai 2015 i 5 Mai 2016. O dan y gyfraith fel y mae, bydd y Cynulliad yn mynd yn ôl at dymhorau pedair blynedd ar ôl hynny.

10. Mae posibilrwydd o hyd y bydd yr etholiadau arferol i Senedd San Steffan ac i'r Cynulliad yn digwydd yr un diwrnod yn y dyfodol. Gan y bydd etholiadau San Steffan yn dilyn cylch pum mlynedd penodol o 2015 ac y bydd etholiadau'r Cynulliad yn dilyn cylch pedair blynedd penodol o 2016, mae disgwyl iddynt gyd-ddigwydd yn 2020 a phob ugain mlynedd ar ôl hynny.

11. Felly mae *is-adran (1)* o gymal 1 yn diwygio adran 3(1) o DLlC 2006 i ddarparu ar gyfer cynnal etholiadau cyffredinol arferol i'r Cynulliad bob pum mlynedd, yn hytrach na phob pedair blynedd fel y mae ar hyn o bryd. Byddai'r etholiadau nesaf i'r Cynulliad ar ôl 2016 yn cael eu cynnal yn 2021, ac felly ni fyddant yn gwrthdaro ag

etholiadau San Steffan yn 2020.

12. Mae *is-adran (2)* yn diddymu adran 5 o Ddeddf Seneddau Tymor Penodol 2011. Nid oes ei hangen bellach oherwydd, o ganlyniad i is-adran (1), bydd yr etholiadau nesaf i'r Cynulliad ar 5 Mai 2016 a phob pum mlynedd ar ôl hynny.

**Cymal 2: Dileu'r gwaharddiad rhag sefyll mewn etholiad ar gyfer etholaeth a rhanbarth etholiadol**

13. Mae gan bob etholwr yng Nghymru ddwy bleidlais: un ar gyfer dewis ymgeisydd i'r etholaeth ac un ar gyfer ymgeisydd rhanbarthol. Cyn i DLlC 2006 ddod i rym, roedd ymgeiswyr yn gallu sefyll i gael eu hethol yn aelod etholaeth ac yn aelod rhanbarthol. Roedd adran 7 o DLlC 2006 yn gwahardd hyn oherwydd y gred y byddai ethol rhywun a oedd wedi colli pleidlais etholaeth yn aelod rhanbarthol yn gallu achosi anfodlonrwydd â'r broses wleidyddol gan ei fod wedi'i wrthod yn bendant gan yr etholwyr fel aelod etholaeth. Fodd bynnag, mae astudiaethau gan y Comisiwn Etholiadol ac eraill wedi dangos nad oes sail i'r pryder hwn a bod y gwaharddiad yn cael effaith anghymesur ar bleidiau llai sydd â llai o ymgeiswyr posibl at eu galw.

14. Mae *is-adran (2)* o gymal 2 yn diwygio adran 7 o DLlC 2006 i ddileu'r cyfyngiad ar sefyll yn ymgeisydd etholaeth ac yn ymgeisydd rhanbarthol mewn etholiad i'r Cynulliad. Ond ni all rhywun sefyll yn ymgeisydd mewn etholaeth y tu allan i'r rhanbarth lle y mae'n sefyll. Mae hefyd yn darparu nad yw ymgeisydd ar restr ranbarthol un o'r pleidiau'n gallu sefyll mewn etholaeth yn ymgeisydd dros blaid arall. Mae'r cymal hefyd yn darparu ar gyfer ymgeiswyr sy'n sefyll fel unigolion ar restr ranbarthol: ni fyddant yn gallu sefyll yn ymgeisydd dros blaid yn un o etholaethau'r rhanbarth nac yn ymgeisydd mewn etholaeth y tu allan i'r rhanbarth hwnnw.

15. Mae *is-adran (3)* o gymal 2 yn diwygio adran 9 o DLlC 2006 i ddarparu ar gyfer y ffordd o ddyrannu seddau rhanbarthol ar ôl dileu'r gwaharddiad.

16. Mae *is-adran (4)* o gymal 2 yn diwygio adran 11(8) o DLlC 2006 i ddarparu na ellir rhoi ymgeisydd a oedd â'i enw ar restr plaid a gyflwynwyd yn yr etholiad cyffredinol blaenorol i lenwi sedd ranbarthol sy'n dod yn wag rhwng etholiadau cyffredinol os oedd yr ymgeisydd hwnnw wedi'i ethol yn yr etholiad blaenorol hwnnw neu os yw wedi'i ethol i'r Cynulliad ers hynny mewn is-etholiad etholaeth neu o dan adran 11.

**Cymal 3: Anghymhwyso ASau rhag bod yn aelodau o'r Cynulliad**

17. Mae'r arfer o fod yn AC ac yn aelod o Dŷ'r Cyffredin (a elwir yn gyffredin yn "gwneud swyddi deuol" ("double jobbing") yr un pryd wedi achosi cryn feirniadaeth. Ystyriwyd y mater hwn yn adroddiad y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus 'MPs' Expenses and Allowances: Supporting Parliament, safeguarding the taxpayer' a gyhoeddwyd yn 2009, a'i argymhelliad oedd: "that the practice of holding dual mandates in both the House of Commons and the devolved legislatures should be

brought to an end as soon as possible. Ideally that would happen by the time of the scheduled elections to the three devolved legislatures in May 2011, or failing that by 2015 at the very latest."

18. Mae *is-adran (1)* o gymal 3 yn mewnosod paragraff newydd (za) yn adran 16(1) o DLlC 2006 i ddarparu bod aelodau o Dŷ'r Cyffredin yn cael eu hanghymhwyso rhag bod yn aelodau o'r Cynulliad.

19. Mae *is-adran (2)* o gymal 3 yn nodi rhai eithriadau cyfyngedig i'r ddarpariaeth bod ASau yn cael eu hanghymhwyso rhag bod yn aelodau o'r Cynulliad.

20. Mae adran newydd 17A(1) yn DLlC 2006 yn darparu y caiff AS gyfnod gras o wyth diwrnod ar ôl ei ethol i'r Cynulliad i ymddiswyddo o'i sedd yn Nhŷ'r Cyffredin cyn ei anghymhwyso rhag bod yn AC. Gan nad yw AS yn gallu ymddiswyddo yn ystyr technegol y gair hwnnw, pwrpas y cyfnod gras hwn yw rhoi amser iddo ofyn am gael ei benodi i swydd fel Stiward neu Feili Cantrefi'r Chilterns er mwyn ei anghymhwyso rhag bod yn aelod o Dŷ'r Cyffredin. Mae hyn yn caniatáu iddo barhau'n AC yn hytrach nag yn AS.

21. Mae adran newydd 17A(2) yn delio â rhywun sydd *(a)* yn ymgeisydd mewn etholiad i Dŷ'r Cyffredin, *(b)* yn cael ei ethol yn AC mewn etholiad i'r Cynulliad, ac *(c)* yn cael ei ethol wedyn i Dŷ'r Cyffredin. Mewn sefyllfa o'r fath, ni fyddai'n cael ei anghymhwyso rhag bod yn AC yn yr wyth diwrnod ar ôl y diwrnod y cafodd ei ethol i'r Cynulliad. Unwaith eto, mae hyn yn caniatáu rhywfaint o amser i'r AC ei anghymhwyso ei hun rhag bod yn aelod o Dŷ'r Cyffredin. Fel arall, os bydd etholiad i'r Cynulliad ac etholiad i Senedd San Steffan yn digwydd yr un diwrnod neu'n agos i'w gilydd, a bod yr ymgeisydd yn cael ei ethol yn y ddau, bydd y ddarpariaeth hon yn rhoi wyth diwrnod iddo benderfynu pa sedd i'w chymryd.

22. Dim ond rhywun sy'n "ymgeisydd" mewn etholiad i Dŷ'r Cyffredin sy'n cael y cyfnod gras hwn, ar ôl ei ethol yn AC. Ni fydd cyfnod gras tebyg ar gyfer AC presennol sydd wedyn yn cael ei ethol i Dŷ'r Cyffredin. Bydd rhywun o'r fath, ar ôl ei ethol i Senedd San Steffan, yn cael ei anghymhwyso'n awtomatig rhag bod yn aelod o'r Cynulliad o dan adran 16(1)(za) o DLlC 2006. Nid oes angen cyfnod gras am nad oes cyfyngiadau ar ymddiswyddo o'r Cynulliad fel y rhai ar gyfer Senedd San Steffan.

23. Mae is-adran (2) o gymal 3 hefyd yn mewnosod adran 17B newydd yn DLlC 2006. Mae'r adran hon yn gymwys lle y mae AC yn cael ei ethol yn AS o fewn y cyfnod o 372 diwrnod cyn y diwrnod y disgwylir i etholiad cyffredinol y Cynulliad gael ei gynnal. Mae'r cyfnod o 372 diwrnod yn adlewyrchu'r cyfnod hwyaf posibl (gan ganiatáu ar gyfer blynyddoedd naid hyd yn oed) rhwng etholiad cyffredinol sydd wedi'i drefnu i San Steffan a'r etholiad wedyn sydd wedi'i drefnu i'r Cynulliad. Petai AC yn cael ei ethol mewn etholiad cyffredinol rheolaidd i San Steffan, ni fyddai felly'n cael ei anghymhwyso o dan adran 16(1)(za) o DLlC 2006 oherwydd mae adran 17B yn caniatáu cyfnod cyfyngedig o "swyddi deuol". Yn yr amgylchiadau hyn, byddai AC yn cadw'i sedd er mwyn osgoi cost is-etholiad pan mai dim ond oddeutu

blwyddyn sydd i fynd tan etholiad rheolaidd y Cynulliad.

24. Mae *is-adrannau (4) a (5)* o gymal 3 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (OS 2007/236). Mae Erthygl 34 (datganiadau anwir mewn papurau enwebu) a rheol 9(4)(c)(ii) o Atodlen 5 (rheolau etholiadau'r Cynulliad) yn cael eu diwygio i gynnwys cyfeiriad at y ddarpariaeth i anghymhwyso ASau yn adran 16(1)(za) o DLlC 2006.

**Cymal 4: Llywodraeth Cymru**

25. Mae *is-adran (1)* o gymal 4 yn ailenwi Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Llywodraeth Cymru (Welsh Government). Drwy hyn gellir defnyddio'r term Llywodraeth Cymru mewn dogfennau ffurfiol, cyfreithiol yn dilyn y defnydd cynyddol sydd wedi'i wneud o'r term hwnnw gan Lywodraeth presennol Cymru ac eraill yn y parth cyhoeddus ers etholiad 2011. Mae *Is-adran (2)* yn rhoi'r hawl i ddefnyddio'r enw newydd lle bynnag y mae'n digwydd yn DLlC 2006, yn amodol ar ambell i eithriad yn *is-adran (3).*

26. Mae *is-adran (4)* o gymal 4 yn sicrhau, lle y bo angen, fod cyfeiriadau statudol at Lywodraeth Cynulliad Cymru (heblaw'r rheini yn DLlC 2006) yn cael eu darllen fel pe baent yn gyfeiriadau at Lywodraeth Cymru yn lle hynny. Mae hefyd yn darparu, os yw'r cyd-destun yn galw am hynny, fod y cyfeiriadau hynny'n parhau i gynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru (er enghraifft, mewn cysylltiad â materion sydd wedi'u cwblhau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ond sy'n parhau mewn grym yn gyfreithiol).

**Cymal 5: Prif Weinidog: dileu'r pŵer i benodi ar ôl diddymu'r Cynulliad**

27. Mae cymal 5 yn mewnosod geiriau ychwanegol yn adran 46(5)(c) o DLlC 2006 i egluro y bydd y Prif Weinidog yn cadw ei swydd os caiff y Cynulliad ei ddiddymu.

28. Mae adran 46 yn darparu y bydd y Prif Weinidog yn dal ei swydd nes bydd Ei Mawrhydi yn derbyn ei ymddiswyddiad neu nes caiff rhywun arall ei benodi i'r swydd honno. Gall y Llywydd benodi rhywun i gyflawni swyddogaethau'r Prif Weinidog os bydd yn marw, yn dod yn analluog i weithredu neu'n peidio â bod yn AC. Nid oedd yn fwriad i'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio gan y Llywydd lle y mae'r Prif Weinidog wedi peidio â bod yn AC dim ond am fod y Cynulliad wedi'i ddiddymu cyn etholiad. Er mwyn sicrhau na fydd ansicrwydd ynghylch y sefyllfa, mae'r cymal hwn yn diwygio adran 46(5)(c) fel na fydd pŵer i benodi rhywun i arfer swyddogaethau'r Prif Weinidog dim ond am fod y Cynulliad wedi'i ddiddymu.

**RHAN 2: CYLLID**

29. Mae'r darpariaethau ynghylch Deddfau'r Cynulliad[1] yn DLlC 2006 yn pennu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ac yn rhoi pŵer i'r Cynulliad i wneud cyfreithiau, a elwir yn Ddeddfau'r Cynulliad. Mae polisi treth (heblaw am drethi lleol fel y dreth gyngor) y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ar hyn o bryd.

30. Mae Rhan 2 o'r Bil yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu ynghylch trethi datganoledig. Y trethi datganoledig sydd wedi'u pennu yn y rhan newydd, sef Rhan 4A o DLlC 2006 yw treth Gymreig ar drafodion sy'n ymwneud â buddiannau mewn tir (i gymryd lle treth dir y dreth stamp yng Nghymru) a threth Gymreig ar waredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi (i gymryd lle treth tirlenwi yng Nghymru). Gellir ychwanegu trethi datganoledig newydd drwy wneud Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor gan Ei Mawrhydi.

31. Os ceir pleidlais o blaid hynny mewn refferendwm, caiff y Cynulliad hefyd osod cyfradd Gymreig ar gyfer cyfrifo'r cyfraddau treth incwm sydd i'w talu gan drethdalwyr yng Nghymru.

32. Datganolwyd set o bwerau tebyg i'r Alban o dan Ddeddf yr Alban 2012 (a oedd yn diwygio Deddf yr Alban 1998). Rhagwelir y bydd y trethi sydd i gymryd lle treth dir y dreth stamp a threth tirlenwi yn yr Alban yn cael eu cyflwyno yn Ebrill 2015, a disgwylir y bydd cyfradd dreth incwm yr Alban yn dechrau yn Ebrill 2016.

**Cymal 6: Trethi: rhagarweiniol**

33. Y cymal hwn sy'n darparu'r strwythur ar gyfer deddfu ynghylch trethi gan Lywodraeth Cymru. Mae *is-adran (2)* o gymal 6 yn mewnosod Rhan 4A newydd yn DLlC 2006, gan ddechrau ag adran 116A newydd (rhan o'r Bennod 1 ragarweiniol).

34. Mae adran 116A(1) yn cyflwyno Penodau 3 a 4 yn Rhan 4A sy'n nodi bod trethi ar drafodion tir (Pennod 3) ac ar waredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi (Pennod 4) yn drethi datganoledig.

35. Mae adran 116A(2) yn darparu bod Rhan 4A yn gosod cyfyngiadau ar y pŵer i ddeddfu ynghylch trethi datganoledig, gan gynnwys adran 116A(3) newydd.

---

[1] Roedd "darpariaethau Deddfau'r Cynulliad" yn rhoi pŵer i'r Cynulliad i basio Deddfau'r Cynulliad yn yr 20 maes sydd wedi'u datganoli i Gymru os oedd mwyafrif y pleidleiswyr mewn refferendwm yn cymeradwyo'r cynnig i weithredu'r darpariaethau. Cynhaliwyd refferendwm ar 3 Mawrth 2011, a chafwyd pleidlais o blaid y cynnig. Daeth y darpariaethau i rym ar 5 Mai 2011.

36. Mae adran 116A(3) yn darparu na cheir gosod treth ddatganoledig a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru os byddai gwneud hynny'n anghyson â rhwymedigaethau rhyngwladol y DU. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, trafodion tir penodol mewn amgylchiadau sydd wedi'u nodi mewn erthyglau yng Nghonfensiwn Fienna ar Gysylltiadau Diplomyddol neu Gytuniad Gogledd Iwerydd, lle y byddai'n rhaid i Lywodraeth y DU ad-dalu unrhyw dreth a godwyd.

37. Mae adran 116A(4) yn diffinio treth ddatganoledig ("*devolved tax*") at ddibenion DLlC 2006 i olygu treth sydd wedi'i phennu'n dreth ddatganoledig yn y Rhan 4A newydd.

38. Yn gryno, mae adran 116B yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad i ddarparu ar gyfer penodi gweision sifil i gorff y bydd yn ei sefydlu mewn cysylltiad â threthi datganoledig. Ond, dim ond cyflogeion y corff hwnnw y mae eu swyddogaethau'n gysylltiedig â chasglu a rheoli trethi datganoledig a/neu faterion cyllid llywodraeth leol a fydd yn cael bod yn weision sifil. Ni waeth i bwy y bydd y Cynulliad yn rhoi'r pŵer i benodi'r gweision sifil hynny, Gweinidogion Cymru fydd yn gorfod ysgwyddo'r costau a fydd yn gysylltiedig â'u penodi.

39. Mae adran 116B(1) yn darparu bod yr adran hon yn gymwys lle y mae'r Cynulliad yn deddfu i sefydlu corff a fydd yn arfer swyddogaethau yng nghyswllt casglu a rheoli trethi datganoledig. Cyfeirir at y ffaith y gall y Cynulliad hefyd ddewis gwneud darpariaeth a fydd yn galluogi'r corff hwnnw i arfer swyddogaethau yng nghyswllt materion cyllid llywodraeth leol (megis y dreth gyngor ac ardrethi busnes) neu unrhyw fater arall.

40. Mae adran 116B(2) yn diffinio swyddog perthnasol ("*relevant official*") at ddibenion yr adran hon. Mae swyddogion perthnasol yn golygu, yng nghyswllt corff a sefydlir o dan is-adran 1, y swyddogion neu'r aelodau staff hynny nad oes ganddynt swyddogaethau heblaw'r swyddogaethau sy'n gysylltiedig ag (a) casglu a rheoli trethi datganoledig; neu (b) cyllid llywodraeth leol. Felly, ni fydd swyddogion ac aelodau staff a benodir i'r corff, y mae eu swyddogaethau'n gysylltiedig ag unrhyw fater arall, yn swyddogion perthnasol *("relevant officials"*) at ddibenion yr adran hon.

41. Mae adran 116B(3) yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad i ddarparu ar gyfer penodi swyddogion perthnasol yn weision sifil fel y darperir ar ei gyfer yn yr adran hon.

42. Mae adran 116B(4) yn diffinio swyddogion sifil perthnasol *("relevant civil servants"*) fel y swyddogion perthnasol hynny sydd wedi cael eu penodi yn weision sifil fel y darperir ar ei gyfer yn yr adran hon. Dim ond i'r gweision sifil hynny y bydd is-adrannau (5)-(7) yn gymwys.

43. O dan adran 116B(5) bydd Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am dalu cyflogau a threuliau gweision sifil perthnasol a benodir yn rhinwedd adran 116B(3), ni waeth i bwy y mae'r Cynulliad yn dewis rhoi'r pŵer i benodi'r gweision sifil perthnasol

hynny.

44. O dan adran 116B(6), rhaid i Weinidogion Cymru wneud taliadau i Weinidog y Gwasanaeth Sifil ar adegau a bennir ganddo yng nghyswllt pensiynau ayb sy'n daladwy i gyn weision sifil ac i weision sifil presennol ac yng nghyswllt unrhyw dreuliau i'w hysgwyddo wrth weinyddu'r pensiynau hynny ayb.

45. O dan adran 116B(7) gall Gweinidogion Cymru, os ydynt yn dymuno, wneud taliadau tuag at ddarparu pensiynau ayb i gyn weision sifil neu weision sifil presennol perthnasol, neu yng nghyswllt y gweision sifil hyn.

46. Mae adran 116C(1)(a) yn darparu ar gyfer gallu diwygio Rhan 4A drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor i ddarparu ar gyfer datganoli trethi ychwanegol i'r Cynulliad. Mae is-adran (1)(b) yn cyflwyno pŵer i wneud gorchmynion sy'n caniatáu i ddiwygiadau gael eu gwneud yng nghyswllt trethi datganoledig.

47. O dan adran 116C(2) bydd Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor sydd wedi'i wneud o dan is-adran (1) yn gallu diwygio dogfennau eraill, gan gynnwys deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth os bydd hyn yn briodol.

48. Mae adran 116C(3) yn pennu bod Gorchymyn sydd wedi'i wneud o dan is-adran (1) yn cael ei drafod drwy'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn y Cynulliad ac yn nau Dŷ'r Senedd cyn y gall ddod yn gyfraith.

49. Mae adran 116C(4) yn sicrhau na fyddai Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor sydd wedi'i wneud o dan yr adran hon yn effeithio ar ddilysrwydd un o Ddeddfau'r Cynulliad sydd wedi'i phasio cyn i'r diwygiad ddod i rym, nac ar weithrediad Deddf o'r fath.

50. Mae *is-adrannau (3) i (9)* i gymal 6 yn gwneud diwygiadau pellach yn DLlC 2006. Mae is-adran (3)(a) yn diwygio adran 108(4)(a) o DLlC 2006 i bennu bod y prawf cymhwysedd deddfwriaethol yn adran 108(4)(a) hefyd yn dod o dan yr is-adran (4A) newydd. Mae is-adran (3)(b) yn mewnosod yr is-adran (4A) newydd hon yn adran 108 i ddarparu, lle y mae'r Cynulliad yn deddfu ynghylch treth ddatganoledig, na fydd deddfwriaeth o'r fath y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad dim ond oherwydd ei bod yn dod o dan eithriad sydd wedi'i bennu o dan bennawd arall. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau, os gwneir Gorchymyn yn y dyfodol o dan adran 116C yn caniatáu trethi ychwanegol, na fydd yr eithriadau presennol o dan benawdau eraill (sy'n cynnwys, er enghraifft, yswiriant cerbyd modur) yn rhwystr rhag gwneud darpariaeth ynghylch trethi ar y materion hynny. Mae *is-adrannau (8) a (9)* yn diwygio Atodlen 7 i DLlC 2006 (sy'n rhestru'r pynciau y gall y Cynulliad ddeddfu arnynt) i ddarparu bod trethi datganoledig o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Ystyrir bod trethi datganoledig yn y cyd-destun hwn yn cwmpasu popeth sy'n angenrheidiol i roi trethi datganoledig ar waith gan gynnwys casglu a rheoli'r cyfryw drethi.

**Cymal 7: Diwygiadau sy'n ymwneud â'r Comisiynwyr Cyllid a Thollau**

51. Mae cymal 7 yn diwygio Deddf Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005 ("DCCTh 2005") a Deddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979 i alluogi Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ("Cyllid a Thollau EM") i ddatgelu gwybodaeth i Weinidogion Cymru am drethi datganoledig; i wneud gwybodaeth o'r fath yn gyfrinachol ac yn destun rheolaeth ar ddatgelu o hynny ymlaen; ac i sicrhau na fydd trethi datganoledig o'r fath yn swyddogaeth nac yn fater wedi'i neilltuo (*"assigned matter"*) i Cyllid a Thollau EM, ond yn parhau'n fater i Weinidogion Cymru, gan adael cyfle i Cyllid a Thollau EM weinyddu'r trethi hyn ar ran Gweinidogion Cymru os ydynt yn dymuno hynny.

52. Mae dyletswydd cyfrinachedd statudol ar Gyllid a Thollau EM sy'n pennu'r amgylchiadau lle y gellir datgelu'n gyfreithlon y wybodaeth y mae'n ei dal. Dim ond mewn nifer bach o amgylchiadau penodol y ceir datgelu gwybodaeth. O ganlyniad i ddatganoli rhai meysydd treth i'r Cynulliad mae angen diwygiadau i DCCTh 2005 i alluogi Cyllid a Thollau EM i ddatgelu gwybodaeth berthnasol ynghylch trethi datganoledig.

53. Mae *is-adrannau (3) a (4)* yn diwygio adran 15 o DCCTh 2005 i sicrhau bod pŵer gan Cyllid a Thollau EM i weinyddu trethi datganoledig ar ran Gweinidogion Cymru.

54. Mae *is-adran (5)* yn diwygio adran 17b o DCCTh 2005 i sicrhau na fydd Deddf, neu offeryn a wneir o dan Ddeddf o'r fath, a wneir gan y Cynulliad yn gallu gwahardd y defnydd o wybodaeth, na chyfyngu ar y defnydd o wybodaeth, y bydd Cyllid a Thollau EM yn ei chael mewn cysylltiad ag unrhyw rai o'i swyddogaethau.

55. Mae *is-adrannau (6) a (7)* yn diwygio dyletswydd cyfrinachedd statudol Cyllid a Thollau EM o dan adran 18 o DCCTh fel y caiff Cyllid a Thollau EM ddatgelu gwybodaeth berthnasol i Weinidogion Cymru yng nghyswllt trethi datganoledig.

56. Mae *is-adran (8)* yn cymhwyso'r gosb droseddol bresennol o dan adran 19 o DCCTh 2005 am ddatgelu pellach ar wybodaeth gyfrinachol (sy'n wahardd datgelu pellach ar wybodaeth o'r fath heb gydsyniad y Comisiynwyr) at wybodaeth a ddatgelir i Weinidogion Cymru.

57. Mae *is-adran (9)* yn diwygio adran 18(4)(e) i sicrhau na fydd Deddf, neu offeryn a wneir o dan Ddeddf o'r fath, a wneir gan y Cynulliad yn gallu rhoi caniatâd i Cyllid a Thollau EM ddatgelu gwybodaeth sy'n cael ei dal mewn cysylltiad ag un o'i swyddogaethau. Mae *Is-adran (10)* yn gwneud darpariaeth debyg yng nghyswllt Swyddfa Erlyn Cyllid a Thollau.

58. *Mae is-adrannau (11), (12) a (13)* yn diwygio adran 51 of DCCTh 2005 (dehongli). Mae *is-adran (12)* yn darparu, oni fynna'r cyd-destun fel arall, bod cyfeiriadau at ddeddfiadau yn DCCTh 2005 yn cynnwys Deddf a wneir gan y Cynulliad, neu offeryn a wneir o dan Ddeddf o'r fath. Mae *is-adran (13)* yn mewnosod is-adran (2B) newydd sy'n atal unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â threth ddatganoledig rhag bod

yn un o swyddogaethau Cyllid a Thollau EM.

59. Mae *is-adran (14)* yn diwygio Atodlen 7 o DLlC 2006 i sicrhau bod yr amgylchiadau y gall y Cynulliad ddiwygio swyddogaethau Cyllid a Thollau EM yn glir. Mae *is-adran (14)*(a) yn diwygio Rhan 2 o Atodlen 7 i bennu rheol gyffredinol na all y Cynulliad ddiwygio, dileu nac ychwanegu at swyddogaethau Cyllid a Thollau EM. Mae *is-adran (14)*(b) yn diwygio Rhan 3 o'r Atodlen i ddarparu eithriad i'r rheol gyffredinol hon felly, os bydd y Trysorlys yn cydsynio, gall y Cynulliad roi swyddogaethau sy'n ymwneud â threthi datganoledig i Gyllid a Thollau EM a hefyd, ar ôl rhoi'r swyddogaethau hyn, eu diwygio. Mae hyn yn sicrhau mai dim ond drwy gytundeb ar y naill ochr y gall y Cynulliad roi swyddogaethau i Gyllid a Thollau EM.

**Cymal 8: Cyfradd dreth incwm Gymreig**

60. Mae cymal 8 yn ymwneud â chyfradd dreth incwm Cymru. Mae *is-adran (3)* yn mewnosod Pennod 2 yn y Rhan 4A newydd yn DLlC 2006, sy'n cynnwys adrannau 116D i 116K. Mae *is-adran (2)* yn mewnosod cyfeiriad at Bennod 2 yn y Bennod 1 ragarweiniol yn y Rhan 4A newydd. Bydd y diwygiadau a wnaed gan gymal 8 yn dod i rym yn unol â chymal 13.

61. Mae adran 116D newydd yn rhoi pŵer i'r Cynulliad i osod cyfradd dreth incwm Gymreig, drwy basio cynnig, ar gyfer trethdalwyr yng Nghymru.

62. Mae adran 116D(2) yn rhoi gwybod i'r darllenydd y bydd y cyfraddau treth cyffredinol sy'n cael eu talu gan drethdalwyr yng Nghymru yn cael eu cyfrifo o dan adran 6B o Ddeddf Treth Incwm 2007 ("DTI 2007") ac y bydd yr incwm a drethir ar y cyfraddau hyn yn cael ei bennu gan adran 11B o DTI 2007. Mae adrannau 6BN ac 11B yn cael eu mewnosod gan gymal 9.

63. Mae adrannau 116D(3) i (6) yn darparu y bydd cynnig a basiwyd am gyfradd Gymreig yn gymwys ar gyfer un flwyddyn dreth yn unig a bod rhaid iddi fod yn gyfradd sengl (hanner neu rif cyfan) a fydd yn gymwys drwy gydol y flwyddyn honno. Rhaid i'r cynnig a basiwyd bennu'r flwyddyn dreth y mae'n gymwys iddi a rhaid pasio'r cynnig cyn dechrau'r flwyddyn dreth honno (ond dim mwy na 12 mis cyn dechrau'r flwyddyn honno).

64. Mae adran 116D(7) yn darparu, os bydd cynnig a basiwyd ar gyfradd Gymreig yn cael ei ddileu cyn dechrau'r flwyddyn dreth y mae'n gymwys iddi, y bydd y Deddfau Treth Incwm yn gweithredu ar gyfer y flwyddyn honno fel pe bai'r cynnig heb gael ei basio erioed. (Mae hyn yn neilltuol o berthnasol i'r ffordd o gyfrifo cyfraddau treth yn

adran 6B o DTI 2007.) Mae Deddf Dehongli 1978 yn diffinio Deddfau Treth Incwm (*"Income Tax Acts"*) i olygu'r holl ddeddfiadau sy'n ymwneud â threth incwm. Os bydd cynnig a basiwyd yn cael ei ddileu, gellir pasio cynnig arall ar gyfradd Gymreig yn ei le ar yr amod bod y cynnig hwnnw'n cael ei basio yn ei le cyn dechrau'r flwyddyn dreth y bydd yn gymwys iddi.

65. Mae adran 116D(8) yn ei gwneud yn ofynnol bod rheolau sefydlog y Cynulliad yn sicrhau mai'r Prif Weinidog neu un o Weinidogion Cymru fydd yr unig rai a gaiff wneud cynnig ar gyfer cyfradd Gymreig.

66. Mae adran 116E newydd yn diffinio trethdalwr yng Nghymru ("Welsh taxpayer") at ddibenion Rhan 4A o DLlC 2006.

67. Mae adran 116E(1) yn datgan mai unigolyn yw trethdalwr yng Nghymru (ac nid cwmni neu ymddiriedolaeth, er enghraifft) sy'n preswylio yn y DU at ddibenion treth incwm ac yn bodloni o leiaf un o'r tri amod sydd wedi'u nodi yn yr adran. Mae cyfeiriad yn y ddeddfwriaeth at Atodlen 45 i Ddeddf Cyllid 2013 (mae cyfeiriadau yn y Nodiadau hyn at "DC" a blwyddyn yn cyfeirio at y Ddeddf Cyllid ar gyfer y flwyddyn honno) a gyflwynodd brawf preswylio statudol newydd i benderfynu a yw unigolion yn preswylio yn y DU at ddibenion treth.

68. Mae adran 116E(2) yn disgrifio amod A, ac yn darparu y bydd unigolyn yn bodloni amod A os oes ganddo gysylltiad agos â Chymru.

69. Mae adran 116E(3) yn disgrifio amod B, ac yn darparu y bydd unigolyn yn bodloni amod B os nad oes ganddo gysylltiad agos â Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon ac os yw'n treulio mwy o ddiwrnodau yn y flwyddyn honno yng Nghymru nag mewn unrhyw ran arall o'r DU.

70. Mae adran 116E(4) yn disgrifio amod C. Bydd unigolyn yn bodloni amod C os yw'r unigolyn hwnnw, am y cyfan neu ran o flwyddyn, yn Aelod Seneddol dros etholaeth yng Nghymru, yn aelod o Senedd Ewrop dros Gymru neu'n AC.

71. Mae adran 116E(5) yn nodi na fydd adran 116E(1) yn gymwys os yw'r unigolyn yn Seneddwr yn cynrychioli'r Alban ar gyfer y flwyddyn dreth gyfan (neu unrhyw ran o'r flwyddyn dreth) – ceir esboniad pellach yn adran 116F.

72. Mae adran 116E(6) yn diffinio seneddwr yn cynrychioli'r Alban fel unigolyn sydd, yng nghyswllt adran 116E(5) ac adran 116F, yn aelod o Senedd y DU, gydag etholaeth yn yr Alban, yn aelod o Senedd yr Alban, neu yn aelod o Senedd Ewrop dros yr Alban yn ystod blwyddyn dreth.

73. Mae adran 116F newydd yn disgrifio'r amgylchiadau lle y gall seneddwr yn cynrychioli'r Alban fod yn drethdalwr yng Nghymru.

74. Mae adran 116F(1) yn nodi y bydd unigolyn, os yw wedi bod yn seneddwr yn

cynrychioli'r Alban mewn blwyddyn dreth, yn drethdalwr yng Nghymru os yw'n preswylio yn y DU ar gyfer y flwyddyn dreth, wedi bod hefyd yn seneddwr yn cynrychioli Cymru yn y flwyddyn dreth honno, ac yn gallu bodloni un o'r ddau amod a ddisgrifir yn yr adran. O'i gymryd gydag adran 116E(5), mae'n golygu, os yw unigolyn yn seneddwr yn cynrychioli'r Alban am ran o'r flwyddyn, ond nid yn seneddwr yn cynrychioli Cymru yn y flwyddyn dreth honno, y bydd yn drethdalwr yn yr Alban (yn hytrach na threthdalwr yng Nghymru), hyd yn oed, er enghraifft, os oes ganddo hefyd gysylltiad agos â Chymru.

75. Mae adran 116F(2) yn darparu ar gyfer penderfynu a fydd unigolyn yn drethdalwr yng Nghymru os yw'n seneddwr yn cynrychioli'r Alban a Chymru yn yr un flwyddyn dreth drwy gymharu'r amser y mae wedi bod yn seneddwr yn cynrychioli'r Alban ac yn cynrychioli Cymru. Os yw wedi bod yn seneddwr yn cynrychioli Cymru am y cyfnod hiraf, bydd yn drethdalwr yng Nghymru.

76. Mae adran 116F(3) yn trafod sefyllfa unigolyn sy'n seneddwr yn cynrychioli Cymru a'r Alban am yr un cyfnod o amser mewn blwyddyn dreth. Os bydd hyn yn digwydd, byddai angen i'r unigolyn ystyried amodau A a B yn adran 116E a byddai'n drethdalwr yng Nghymru am y flwyddyn petai'n bodloni un o'r amodau hynny.

77. Mae'r adran 116G newydd yn diffinio beth y mae cysylltiad agos â Chymru neu unrhyw ran arall o'r DU (hynny yw, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon) yn ei olygu at ddibenion adrannau 116E(2) a 116E(3)(a).

78. Mae adran 116G(2) yn gymwys lle nad oes ond un man preswylio gan unigolyn yn y DU lle y mae'n byw am ran o'r flwyddyn o leiaf. Mae'n darparu y bydd cysylltiad agos gan unigolyn o'r fath â'r rhan o'r DU lle y mae'r man preswylio hwnnw. Os yw'r lle hwnnw yng Nghymru, bydd yr unigolyn yn drethdalwr yng Nghymru. Os yw'r lle hwnnw mewn rhan arall o'r DU, ni fydd yr unigolyn yn drethdalwr yng Nghymru (oni bai fod y rheolau arbennig ar gyfer seneddwyr yn cynrychioli Cymru yn gymwys).

79. Mae adran 116G(3) yn gymwys lle y mae gan unigolyn ddau neu fwy o fannau preswylio yn y DU. Mae'n darparu y bydd gan unigolyn o'r fath gysylltiad agos â'r rhan o'r DU lle y mae ei brif fan preswylio, gyhyd â'i fod yn byw yn y man preswylio hwnnw am o leiaf ran o'r flwyddyn, a bod y cyfnodau pan fo ei brif fan preswylio yn y lle hwnnw yn cynnwys, gyda'i gilydd, mwy o'r flwyddyn na'r cyfnodau pan fo ei brif fan preswylio mewn unrhyw ran arall o'r DU. Bydd yr unigolyn yn drethdalwr yng Nghymru os yw'r cyfnodau pan fo ei brif fan preswylio yng Nghymru yn cynnwys gyda'i gilydd mwy o'r flwyddyn na'r cyfnodau pan fo ei brif fan preswylio mewn unrhyw ran arall o'r DU. Er enghraifft, byddai unigolyn y mae ei brif fan preswylio yn Lloegr am 120 diwrnod cyntaf y flwyddyn dreth, ac wedyn yn symud i Gymru am weddill y flwyddyn, yn drethdalwr yng Nghymru, gan y byddai ei brif fan preswylio wedi bod yng Nghymru am gyfnod hwy. Byddai unigolyn y mae ei brif fan preswylio yng Nghymru am 165 diwrnod, yn Lloegr am 100 diwrnod ac yn yr Alban am 100 diwrnod yn drethdalwr yng Nghymru hefyd.

80. Mae adran 116G(4) yn darparu, er mwyn cymhwyso'r diffiniad o drethdalwr yng Nghymru, fod man preswylio ("*place*") yn cynnwys llong neu ddull cludo o fath arall.

81. Mae adran 116H yn darparu'r ffordd o benderfynu nifer y diwrnodau y mae unigolyn yn eu treulio yng Nghymru neu mewn rhan arall o'r DU. Yr unig rai y byddai hyn yn gymwys iddynt yw unigolion y mae eu statws fel trethdalwyr yng Nghymru heb gael ei benderfynu arno eisoes drwy fodloni amodau A neu C.

82. Mae adran 116H(1) yn darparu bod unigolyn yn treulio mwy o ddiwrnodau yng Nghymru nag mewn unrhyw ran arall o'r DU os (a dim ond os) yw nifer y diwrnodau yn y flwyddyn y mae yng Nghymru yn fwy na nifer y diwrnodau yn y flwyddyn y mae mewn unrhyw ran arall o'r DU. Penderfynir ble y mae unigolyn ar ddiwrnod penodol yn ôl lle y mae ar ddiwedd y diwrnod.

83. Mae adran 116H(2) yn darparu eithriad i'r rheol yn adran 116G(1) lle y mae unigolyn yn cyrraedd y DU yn deithiwr ac, y diwrnod nesaf, yn ymadael â'r DU heb gymryd rhan mewn gweithgareddau sydd heb gysylltiad agos â'i daith drwy'r DU. Nid oes angen cyfrif y diwrnodau y bodlonir yr eithriad hwn er mwyn penderfynu a yw unigolyn yn bodloni amod B.

84. Mae adran 116I newydd yn darparu pwerau atodol i addasu deddfiadau.

85. Mae adran 116I(1) yn darparu y caiff gorchymyn gan Drysorlys EM newid y diffiniad o incwm y codir treth incwm arno ar y cyfraddau Cymreig o dan adran 11B newydd o DTI 2007 neu o ran cymhwyso'r adran honno i ddosbarth penodol o incwm y codir treth incwm arno. Er hwylustod gweinyddol, gall fod yn fuddiol i unigolion petai rhai mathau o incwm heb fod yn gynilion yn parhau i gael eu trethu ar y prif gyfraddau, yn hytrach nag ar y cyfraddau Cymreig. Bydd y pŵer yn caniatáu i newidiadau o'r fath gael eu gwneud drwy is-ddeddfwriaeth. Mae adran 116I(8) yn egluro y gellir defnyddio'r pŵer dim ond i atal mathau o incwm heb fod yn gynilion rhag cael eu trethu o dan adran 11B – ni cheir ei ddefnyddio i bennu bod incwm cynilion neu incwm difidend i'w drethu ar y gyfradd Gymreig.

86. Mae adran 116I(2) yn caniatáu i gyfeiriadau at y gyfradd sylfaenol, y gyfradd uwch a'r gyfradd ychwanegol gael eu diwygio yng nghyswllt trethdalwyr yng Nghymru. (Mae'r pŵer gwneud gorchmynion yn gyfyngedig fel na ellir gwneud diwygiadau i Pennod 2 o Ran 2 i DTI 2007, sy'n pennu'r cyfraddau treth incwm a godir ar incwm.) Mae nifer o ostyngiadau mewn treth yn cael eu cyfrifo drwy gyfeirio at incwm crynswth cyn didynnu treth incwm. Mae cyflwyno cyfradd Gymreig yn codi nifer o gwestiynau ynghylch pa gyfradd i'w defnyddio wrth gyfrifo gostyngiadau ac wrth gyfrifo incwm y didynnir treth ohono yn y ffynhonnell.

87. Mae'r Llywodraeth yn dymuno trafod y materion hyn â rhanddeiliaid perthnasol cyn penderfynu'n derfynol ar y ffordd o drin gostyngiadau a mathau o incwm o'r fath, a delio â materion o'r fath, lle y bo'n briodol, drwy wneud is-ddeddfwriaeth ar ôl

cynnal y trafodaethau hynny. Rhagwelir y bydd y dull o drafod y meysydd hyn yn gyson â'r cynigion ar gyfer yr Alban sydd wedi'u nodi yn Nodyn Technegol Cyllid a Thollau EM[2] a gyhoeddwyd ym Mai 2012.

88. Mae adran 116I(3) yn darparu y gellir gwneud gorchymyn i ohirio dros dro effaith cynnig a basiwyd sy'n ymwneud â gweithredu'r system Talu Wrth Ennill (TWE). Rhan hanfodol o'r system TWE yw'r defnydd o dablau treth gan gyflogwyr i gyfrifo pa faint i'w ddidynnu o gyflogau eu gweithwyr. Pe byddai'r Cynulliad, am ba reswm bynnag, yn peidio â phasio cynnig tan ychydig cyn dechrau'r flwyddyn dreth, neu'n pasio cynnig yn lle un arall ychydig cyn dechrau'r flwyddyn dreth neu'n peidio â phasio cynnig o gwbl, gallai hynny achosi anawsterau ymarferol i Cyllid a Thollau EM, darparwyr gwasanaeth cyflogres ac eraill wrth wneud y newidiadau angenrheidiol i weithredu'r system TWE yn briodol cyn dechrau'r flwyddyn dreth. Gallai problemau tebyg godi pe na byddai Llywodraeth y DU yn gwneud penderfyniad ynghylch y prif gyfraddau treth incwm, neu unrhyw lwfansau perthnasol, tan ychydig cyn dechrau'r flwyddyn dreth. Lle y mae problem o'r fath yn codi yng nghyswllt y prif gyfraddau treth incwm, fe geir darpariaeth gan amlaf yn y Ddeddf Cyllid berthnasol i ddelio â'r effaith ar y system TWE (gweler, er enghraifft, adrannau 2(3) a 4(3) o Ddeddf Cyllid 2008). Byddai'r pŵer sydd wedi'i ddarparu gan adran 116I(3) yn caniatáu i ddarpariaeth debyg gael ei gwneud mewn cysylltiad â'r gyfradd Gymreig.

89. Mae adran 116I(4) yn rhoi pŵer i Drysorlys EM i wneud gorchymyn i addasu unrhyw ddeddfiad i roi sylw i unrhyw newidiadau pellach sy'n angenrheidiol o ganlyniad i orchymyn o dan is-adrannau (1) neu (3), neu mewn cysylltiad â gorchymyn o'r fath.

90. Mae adran 116I(5) yn darparu bod gorchymyn sydd wedi'i wneud o dan adran 116I, i'r graddau y mae Trysorlys EM yn ei ystyried yn briodol, yn gallu bod yn ôl-weithredol a dod i rym ar ddechrau'r flwyddyn dreth pan gafodd ei wneud. Nid yw'n anarferol i Gydsyniad Brenhinol gael ei roi i Ddeddf Cyllid ar ôl dechrau'r flwyddyn dreth y mae'n gymwys iddi ac i ddarpariaethau sydd wedi'u gwneud o dan Ddeddf o'r fath fod yn ôl-weithredol a dod i rym ar ddechrau'r flwyddyn dreth honno. Byddai'r pŵer hwn yn caniatáu i Drysorlys EM wneud unrhyw ddiwygiadau canlyniadol angenrheidiol o ganlyniad i ddarpariaeth o'r fath.

91. Mae is-adrannau 116I(6) a (7) yn darparu y byddai gorchymyn sydd wedi'i wneud o dan yr adran hon yn cael ei drafod drwy'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn Nhŷ'r Cyffredin, oni bai ei fod yn orchymyn o dan adran 116I(3); os felly, byddai'r weithdrefn penderfyniad negyddol yn cael ei defnyddio.

92. Mae adran 116J newydd yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ad-dalu i unrhyw un o Weinidogion y Goron neu i unrhyw un o adrannau'r llywodraeth y treuliau

---

[2] http://www.hmrc.gov.uk/news/technote-scot-taxrate.pdf

gweinyddol sydd wedi'u hysgwyddo oherwydd y Bennod 2 newydd. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, ad-dalu costau ychwanegol Cyllid a Thollau EM wrth weithredu a gweinyddu'r Gyfradd Gymreig newydd.

93. Mae adran 116K newydd yn ei gwneud yn ofynnol bod y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ("RhAC") yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar gyfer pob blwyddyn ariannol (h.y. pob blwyddyn hyd 31 Mawrth) am weinyddu'r gyfradd dreth incwm Gymreig gan Cyllid a Thollau EM.

94. Mae adran 116K(2) yn pennu cwmpas yr adroddiad. Bydd y RhAC yn adrodd ar ddigonolrwydd y rheolau (sydd i fod i gynnwys yr un materion â "*regulations*" yn adran 2(1) o Ddeddf Adran y Trysorlys **a**'r Adran Archwilio 1921) a'r gweithdrefnau y mae Cyllid a Thollau EM wedi'u rhoi ar waith i weinyddu a chasglu'r gyfradd Gymreig. Bydd y RhAC hefyd yn adrodd ar gyfrifiad Cyllid a Thollau EM o'r swm o dreth incwm y gyfradd Gymreig sydd i'w drosglwyddo i Lywodraeth Cymru, ac ar gywirdeb a thegwch y costau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u had-dalu i Cyllid a Thollau EM am weinyddu'r gyfradd Gymreig.

95. Mae adran 116K(3) yn esbonio mai darpariaethau'r gyfradd Gymreig ("*Welsh rate provisions*") yw'r rheini sydd wedi'u nodi yn y Bennod hon (gan gynnwys gorchmynion a wneir gan ddefnyddio'r pwerau yn adran 116(I) a deddfwriaeth arall yn ymwneud â'r cyfraddau sylfaenol uwch ac ychwanegol Cymreig (er enghraifft y darpariaethau a fewnosodir yn DTI 2007 gan gymal 9).

96. Mae adran 116K(4) a (5) yn darparu bod y RhAC yn cael arfer disgresiwn i gynnwys dadansoddiad yn yr adroddiad ynghylch a yw Cyllid a Thollau EM yn defnyddio ei adnoddau'n effeithiol, yn effeithlon ac yn ddarbodus wrth weinyddu'r gyfradd Gymreig.

97. Mae adran 116K(6) yn ei gwneud yn ofynnol bod Cyllid a Thollau EM yn darparu i'r RhAC y wybodaeth y mae arno ei hangen i gwblhau'r adroddiad blynyddol.

98. Mae adran 116k(7) yn ei gwneud yn ofynnol bod yr adroddiad yn cael ei osod gerbron y Cynulliad ddim hwyrach na 31 Ionawr yn y flwyddyn ariannol sy'n dilyn yr un y mae'r adroddiad yn berthnasol iddi.

**Cymal 9: Trethdalwyr y cyfraddau Cymreig sylfaenol uwch ac ychwanegol**

99. Mae cymal 9 yn diwygio DTI 2007 a deddfwriaeth arall i gyfrifo'r cyfraddau dreth sy'n cael eu talu gan drethdalwyr yng Nghymru.

100. Mae *is-adran (2)* yn diwygio adran 6 o DTI 2007 i gynnwys cyfeiriad at y cyfraddau Cymreig sylfaenol, uwch ac ychwanegol.

101. Mae *is-adran (3)* yn mewnosod adran 6B newydd yn DTI 2007, sy'n nodi'r cyfrifiad i'w ddefnyddio i benderfynu ar y cyfraddau treth incwm Cymreig sylfaenol, uwch ac

ychwanegol.

102. Mae adran 6B(1) yn nodi y bydd cyfraddau sylfaenol, uwch ac ychwanegol y DU yn cael eu lleihau 10 pwynt canran ac y bydd y gyfradd Gymreig, a bennir gan y Cynulliad, yn cael ei hychwanegu ar draws y cyfraddau sylfaenol, uwch ac ychwanegol (gostyngol). Felly byddai cyfradd Gymreig o 10 y cant yn golygu bod y cyfraddau a delir gan drethdalwyr Cymreig yr un fath â'r rheini yn y DU, byddai cyfradd o 9 y cant yn golygu bod y cyfraddau ychydig yn is a byddai cyfradd o 11 y cant yn golygu eu bod ychydig yn uwch. Mae adran 6B(2) yn cyfeirio at Bennod 2 o Ran 4A (fel y'i diwygiwyd) i DLlC 2006 ar gyfer darpariaethau gosod cyfraddau.

103. Mae *is-adran (4)* yn mewnosod cofnod ar gyfer adran 11B newydd yn adran 10 o'r Ddeddf Treth Incwm, sy'n cyfeirio at ddarpariaethau sy'n cymhwyso cyfraddau treth incwm gwahanol i fathau penodol o incwm.

104. Mae *is-adran (5)* yn mewnosod adran 11B newydd yn DTI 2007 sy'n esbonio'r mathau o incwm a fydd yn drethadwy yn unol a'r cyfraddau Cymreig sylfaenol, uwch ac ychwanegol.

105. Mae adran 11B(1)-(3) yn nodi bod y cyfraddau Cymreig sylfaenol, uwch ac ychwanegol yn gymwys i incwm heb fod yn gynilion *("non-savings income")* a fyddai fel arall yn drethadwy ar y prif gyfraddau sylfaenol, uwch ac ychwanegol pe na fyddai'r unigolyn yn drethdalwr yng Nghymru.

106. Mae adran 11B(4) yn diffinio incwm heb fod yn gynilion ("non-savings income") at ddibenion yr adran hon. Yr effaith yw nad yw'r cyfraddau Cymreig sylfaenol, uwch ac ychwanegol yn gymwys i incwm cynilion fel y'i diffinnir yn adran 18 o DTI 2007.

107. Mae adran 11B(5) a (6) yn gwneud adran 6B newydd yn ddarostyngedig i adran 13 o DTI 2007 ac achosion eraill lle y gall incwm fod yn drethadwy ar gyfradd wahanol.

108. Mae *is-adran (6)* o gymal 9 yn diwygio adran 13 o DTI 2007, sy'n cymhwyso'r cyfraddau difidend i incwm difidend. Yr effaith yw bod incwm difidend yn parhau i gael ei drethu ar y cyfraddau difidend cyffredin, uwch ac ychwanegol yn hytrach nag ar y cyfraddau Cymreig.

109. Mae *is-adran (7)* yn diwygio adran 16 o DTI 2007, sy'n nodi mai incwm nad yw'n incwm cynilion nac yn incwm difidend yw'r haen gyntaf o incwm trethadwy; incwm cynilion yw'r ail haen; incwm difidend yw'r drydedd haen. Effaith is-adran (7) yw cymhwyso'r rheolau hyn i benderfynu i ba raddau y byddai incwm heb fod yn gynilion trethdalwr yng Nghymru yn cael ei drethu fel arall ar y gyfradd sylfaenol, y gyfradd uwch neu'r gyfradd ychwanegol a thrwy hynny bennu (gydag adran 11B) pa ran o incwm trethdalwr yng Nghymru fyddai'n cael ei threthu ar y cyfraddau Cymreig.

110. Mae *is-adran (8)* yn diwygio adran 809H o DTI 2007. Mae Pennod A1 o Ran 14 o DTI 2007 yn darparu ar gyfer codi treth ar sail wahanol ar gyfer unigolion nad ydynt

â'u domisil yn y DU. Os yw unigolyn o'r fath yn breswylydd yn y DU at ddibenion treth incwm, caiff wneud hawliad i ddefnyddio'r sail trethu taliadau (*remittance basis*). Wrth gymhwyso'r sail trethu taliadau, dim ond wrth ddod ag incwm ac enillion i'r DU y codir treth incwm y DU a threth enillion cyfalaf y DU arnynt. Fodd bynnag, os yw unigolyn wedi preswylio yn y DU am o leiaf saith o'r naw blwyddyn dreth flaenorol, ac yn dymuno cael ei drethu ar y sail trethu taliadau, o dan adran 809H(2) o DTI 2007 bydd yn rhaid iddo dalu treth incwm a threth ar enillion cyfalaf o £30,000 o leiaf. Os yw unigolyn wedi bod yn preswylio yn y DU am o leiaf 12 o'r 14 blynedd blaenorol, bydd yn rhaid iddo dalu £50,000 o leiaf. Er mwyn cyfrifo treth incwm a godir o dan adran 809H(2), mae is-adran (8) yn trin trethdalwyr yng Nghymru fel trethdalwyr y DU.

111. Mae *is-adran (9)* yn diwygio adran 828B o DTI 2007. Mae adrannau 828A-828D o DTI 2007 yn darparu ar gyfer esemptiad treth incwm ar gyfer cyflogeion ar incwm isel sy'n gweithio yn y DU ac sy'n preswylio (ond heb fod â'u domisil) yn y DU ac yn bodloni rhai amodau penodol (a nodir yn adran 828B). Yn gyffredinol, bydd unigolion o'r fath yn weithwyr mudol a gyflogir mewn swyddi tymhorol yn y sectorau amaethyddol neu wasanaeth yn y DU ac mewn gwledydd eraill yn yr un flwyddyn dreth ac y mae eu hincwm tramor yn cael ei drethu lle y mae'n cael ei ennill. Mae'r diwygiad hwn yn sicrhau y byddai unrhyw unigolion o'r fath sy'n drethdalwyr yng Nghymru yn parhau i elwa ar yr esemptiad hwnnw.

112. Mae *is-adrannau (10) ac (11)* yn diwygio adran 989 o DTI 2007, ac Atodlen 4 iddi, i gynnwys y diffiniadau o'r cyfraddau treth incwm Cymreig sylfaenol, uwch ac ychwanegol fel cofnodion ar wahân. Felly, oni ddarperir ar ei gyfer fel arall, mae cyfeiriadau at y cyfraddau sylfaenol, uwch ac ychwanegol yn golygu prif gyfraddau'r DU yn adran 6 o DTI 2007.

113. Mae *is-adran (12)* yn diwygio adran 7 o Ddeddf Rheoli Trethi 1970 ("DRhT 1970"). Mae'r adran hon yn gosod gofynion ar unigolion i hysbysu Cyllid a Thollau EM os oes angen iddynt dalu treth incwm mewn blwyddyn. Mae adran 7(6) o DRhT 1970 yn cynnwys esemptiad rhag y gofyniad i hysbysu ar gyfer unigolion y mae treth incwm wedi'i thalu ar eu hincwm (neu wedi cael ei drin felly) neu sydd wedi derbyn incwm difidend ac nad ydynt yn "liable to tax at a rate other than the basic rate, the dividend ordinary rate or the starting rate for savings" ar gyfer y flwyddyn honno. Mae'r diwygiad a wneir gan is-adran (12) yn sicrhau y byddai trethdalwyr yng Nghymru yn parhau i elwa ar yr esemptiad hwn.

114. Mae *is-adrannau (13) i (15)* yn diwygio Deddf Trethu Enillion Priodol 1992 ("DTEP 1992"). Mae adran 4 o DTEP 1992 yn nodi'r cyfraddau Treth Enillion Cyfalaf y mae unigolion yn eu talu – gall cyfraddau treth incwm sy'n berthnasol i unigolion effeithio ar hyn. Felly, mae *is-adrannau (14) a (15)* yn gwneud diwygiadau i adrannau 4 a 4A o DTEP 1992 i sicrhau bod trethdalwyr yng Nghymru yn parhau i dalu'r Dreth Enillion Cyfalaf ar y gyfradd briodol.

**Cymal 10: Diwygiadau i'r diffiniad o drethdalwr yn yr Alban**

115. Mae cymal 10 yn cyflwyno nifer o ddiwygiadau i'r diffiniad o drethdalwr yn yr Alban yn Neddf yr Alban 1998 ("Deddf 1998"). Yn fras, mae dau fath o newid yn cael ei wneud. Y cyntaf yw cyfres o ddiwygiadau sy'n ofynnol o ganlyniad i gyflwyno'r gyfradd dreth incwm Gymreig, i sicrhau na all unigolyn fod yn drethdalwr yng Nghymru ac yn yr Alban yn yr un flwyddyn. Mae'r ail yn ymwneud â meysydd lle y mae gwelliannau wedi'u pennu i'r diffiniad er mwyn cael rhagor o eglurder – mae'r rhain wedi'u cynnwys yn narpariaethau'r cyfraddau Cymreig ac mae diwygiadau cyfochrog yn cael eu gwneud i ddarpariaethau'r Alban er mwyn i'r termau a ddefnyddir ar draws y ddau ddiffiniad fod mor gydnaws â phosibl. Daw'r cyntaf yn weithredol ar yr un pryd â darpariaethau'r cyfraddau Cymreig a daw'r ail yn weithredol ar yr un pryd â darpariaethau cyfraddau'r Alban.

116. Mae *is-adrannau (3) a (4)* yn gwneud mân newidiadau i eiriad adran 80D o Ddeddf 1998 i ddefnyddio'r un geiriad ag sy'n cael ei fewnosod yn adran 116E cyfatebol DLlC 2006 (a fewnosodir gan gymal 8). Bydd y newidiadau hyn yn cael eu rhoi ar waith pan fydd cyfradd yr Alban yn dod i rym.

117. Mae *isadrannau (5) a (6)* yn nodi sut y mae'r rheolau sy'n ymwneud â threthdalwyr yn yr Alban yn berthnasol i unigolion sydd wedi bod yn seneddwyr yn cynrychioli Cymru am ran neu'r cyfan o flwyddyn dreth.

118. Mae *is-adran (5)* yn mewnosod isadrannau (4A) a (4B) newydd yn adran 80D. Dywed y rhain nad yw'r rheolau arferol yng nghyswllt trethdalwyr yn yr Alban yn berthnasol i unigolyn sydd wedi bod yn seneddwr yn cynrychioli Cymru yn ystod y flwyddyn dreth ac yn diffinio beth a olygir wrth seneddwr yn cynrychioli Cymru drwy gyfeirio at adran 116E(4) o DLlC 2006 (a fewnosodir gan gymal 8).

119. Mae *is-adran (6)* yn mewnosod adran 80DA newydd yn Neddf 1998. Dyma'r ddarpariaeth sy'n cyfateb i adran 116F o DLlC 2006. Mae'n nodi'r amgylchiadau lle y gall seneddwr sy'n cynrychioli Cymru fod yn drethdalwr yn yr Alban am flwyddyn.

120. Mae'r newidiadau a wneir gan is-adrannau (5) a (6) yn golygu y bydd unigolyn sy'n seneddwr yn cynrychioli Cymru mewn blwyddyn dreth yn drethdalwr yng Nghymru (ac nid yn drethdalwr yn yr Alban) onid ydyw hefyd yn seneddwr yn cynrychioli'r Alban yn yr un flwyddyn dreth. Os yw'r unigolyn yn seneddwr yn cynrychioli Cymru ac yn seneddwr yn cynrychioli'r Alban yn yr un flwyddyn dreth, bydd yn drethdalwr yn yr Alban os yw'n seneddwr yn cynrychioli'r Alban am fwy o'r flwyddyn nag yr oedd yn seneddwr yn cynrychioli Cymru. Os yw'n seneddwr yn cynrychioli'r Alban ac yn seneddwr yn cynrychioli Cymru am yr un nifer o ddiwrnodau mewn blwyddyn dreth, bydd yn drethdalwr yn yr Alban os bydd yn bodloni un o'r rheolau eraill sy'n berthnasol i drethdalwyr yn yr Alban. Bydd y newidiadau hyn yn cael eu rhoi ar waith pan fydd y gyfradd Gymreig yn dod i rym.

121. Mae *is-adran (7)(a)* yn diwygio gweithrediad amod A (y rheol cysylltiad agos) yn

adran 80E o Ddeddf 1998. Felly i fod yn drethdalwr yn yr Alban, bydd angen i brif fan preswylio unigolyn yn yr Alban fod am fwy o'r flwyddyn nag mewn rhan arall o'r DU (yn hytrach nag am o leiaf cymaint o'r flwyddyn). Bydd y newid hwn yn cael ei roi ar waith pan fydd y gyfradd Gymreig yn dod i rym. Mae *is-adran (7)(b)* yn gwneud mân newid i'r rheol cysylltiad agos i fod yn glir ynghylch sut y mae hyn gweithio yng nghyswllt cymariaethau rhwng y gwahanol rannau o'r DU. Bydd y newid hwn yn cael ei roi ar waith pan fydd cyfradd yr Alban yn dod i rym.

122. Mae *is-adran (8)(a)* yn diwygio amod B (y prawf cyfrif diwrnodau) yn adran 80F o Ddeddf 1998. Bydd angen i unigolyn dreulio mwy o ddiwrnodau yn yr Alban nag mewn rhan arall o'r DU i basio'r prawf hwn. Mae hefyd yn diwygio'r prawf cyfrif diwrnodau fel bod diwrnodau yn yr Alban yn cael eu hystyried yn erbyn rhannau eraill o'r DU yn unigol (yn hytrach na gyda'i gilydd). Bydd y newidiadau hyn yn cael eu rhoi ar waith pan fydd y gyfradd Gymreig yn dod i rym. Mae *is-adran (8)(b)* yn gwneud mân newid i'r prawf cyfrif diwrnodau i sicrhau bod yr esemptiad yng nghyswllt unigolion sy'n pasio drwy'r DU ar y ffordd i rywle arall yn gweithio'n iawn. Bydd y newid hwn yn cael ei roi ar waith pan fydd cyfradd yr Alban yn dod i rym.

**Cymal 11: Refferendwm ynghylch cychwyn darpariaethau ar dreth incwm**

123. Mae cymalau 11 ac 12 yn caniatáu i refferendwm gael ei gynnal yng Nghymru ynghylch a ddylai darpariaethau ar gyfer treth incwm, sydd wedi'u disgrifio yng nghymalau 8 a 9, ddod i rym. Mae cymal 11 yn ei gwneud yn ofynnol bod Gorchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor yn peri cynnal refferendwm yn cael ei gymeradwyo gan ddau Dŷ'r Senedd a thrwy basio cynnig yn y Cynulliad gan fwyafrif o ddwy ran o dair o leiaf o ACau (h.y. o leiaf 40 o ACau yn pleidleisio o blaid). Os bydd y Cynulliad yn pasio cynnig yn galw am gynnal refferendwm (hefyd o fwyafrif o ddwy ran o dair o leiaf), mae cymal 12 yn ei gwneud yn ofynnol bod Gorchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor yn cael ei osod, neu bydd yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol egluro'r methiant i wneud hynny. Byddai'r darpariaethau ar dreth incwm yn cael eu rhoi mewn grym drwy orchymyn gan Drysorlys EM, wedi'i wneud o dan gymal 13, petai mwyafrif y pleidleiswyr mewn refferendwm wedi pleidleisio o blaid hynny.

124. Mae'r weithdrefn sydd wedi'i nodi yn y cymalau hyn yn debyg i'r un yn adrannau 103 a 104 o DLlC 2006, a oedd yn darparu ar gyfer cynnal refferendwm ynghylch gweithredu'r darpariaethau ar Ddeddfau'r Cynulliad[3] yn y Ddeddf honno. Mae'r cymalau'n gweithredu argymhelliad sydd wedi'i wneud gan Gomisiwn Silk yn ei adroddiad cyntaf[4] y dylai datganoli treth incwm fod yn ddarostyngedig i refferendwm

[3] Roedd "darpariaethau Deddfau'r Cynulliad" yn rhoi pŵer i'r Cynulliad i basio Deddfau'r Cynulliad yn yr 20 maes sydd wedi'u datganoli i Gymru os oedd mwyafrif y pleidleiswyr mewn refferendwm yn cymeradwyo'r cynnig i weithredu'r darpariaethau. Cynhaliwyd refferendwm ar 3 Mawrth 2011, a chafwyd pleidlais o blaid y cynnig. Daeth y darpariaethau i rym ar 5 Mai 2011.
[4] Grymuso a Chyfrifoldeb – Pwerau Ariannol i Gryfhau Cymru, Argymhelliad 26, t.130.

yng Nghymru. Roedd Comisiwn Silk yn argymell hefyd y dylai darpariaeth ar gyfer refferendwm o'r fath gael ei chynnwys mewn Deddf sy'n cyflwyno pwerau trethu a benthyca i Gymru, ac yn awgrymu hefyd fod y weithdrefn a ddaeth â'r darpariaethau ar Ddeddfau'r Cynulliad i rym yn fodel priodol[5].

125. Mae *is-adran (1)* o gymal 11 yn caniatáu i'w Mawrhydi beri cynnal refferendwm yng Nghymru drwy wneud Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor ynghylch a ddylai'r darpariaethau ar dreth incwm ddod i rym. Os bydd mwyafrif y pleidleiswyr mewn refferendwm yn pleidleisio o blaid, mae *is-adran (2)* yn darparu y bydd y darpariaethau'n dod i rym yn unol â chymal 13 (gweler isod).

126. Mae *is-adran (3)* yn egluro na fyddai pleidlais gan fwyafrif y pleidleiswyr mewn refferendwm yn erbyn gweithredu'r darpariaethau ar dreth incwm yn rhwystr rhag gwneud Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor ar ôl hynny o dan is-adran (1).

127. Mae *is-adrannau (4) a (5)* yn pennu mai dim ond os yw'r Gorchymyn drafft wedi'i gymeradwyo gan ddau Dŷ'r Senedd a mwyafrif o ddwy ran o dair o leiaf yn y Cynulliad y gellir argymell bod Ei Mawrhydi yn gwneud Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor.

128. Mae *is-adran (6)* yn pennu mai dim ond wedi i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori yn y ffordd y mae'n ei hystyried yn briodol ynghylch y Gorchymyn drafft y gellir ei osod yn y Senedd neu yn y Cynulliad. Byddai ymgynghori o'r fath yn debygol o gynnwys Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Etholiadol ymysg eraill.

129. Mae *is-adran (7)* yn cyfeirio'r darllenydd at fanylion pellach am refferendwm yn Atodlen 1 (gweler paragraff 133).

**Cymal 12: Cynnig ar gyfer cynnal refferendwm gan y Cynulliad**

130. Cymal 12 sy'n darparu'r mecanwaith y gall y Cynulliad ei ddefnyddio i drefnu refferendwm. Mae *is-adrannau (1) a (2)* yn pennu y caiff y Prif Weinidog neu un o Weinidogion Cymru wneud cynnig yn y Cynulliad bod argymhelliad yn cael ei wneud i'w Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor i wneud Gorchymyn yn peri cynnal refferendwm. Os caiff y cynnig ei basio gan ddwy ran o dair o leiaf o ACau, rhaid i'r Prif Weinidog ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol i'w hysbysu am hynny cyn gynted ag y bo modd.

131. Mae *is-adran (3)* yn ei gwneud yn ofynnol bod yr Ysgrifennydd Gwladol neu Arglwydd Lywydd y Cyfrin Gyngor yn gosod Gorchymyn drafft gerbron dau Dŷ'r Senedd o fewn 180 o ddiwrnodau wedi i'r Ysgrifennydd Gwladol gael llythyr Prif

---

[5] Grymuso a Chyfrifoldeb – Pwerau Ariannol i Gryfhau Cymru, paragraff 8.2.12.

Weinidog Cymru. Os na wnânt hynny, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru gan ei hysbysu eu bod yn gwrthod gosod y Gorchymyn drafft a'r rhesymau dros beidio â gwneud hynny.

132. Mae *is-adran (4)* yn ei gwneud yn ofynnol bod Prif Weinidog Cymru yn gosod copi o'r hysbysiad gerbron y Cynulliad, a rhaid i'r Cynulliad sicrhau bod yr hysbysiad yn cael ei gyhoeddi.

**Atodlen 1: Refferendwm ynghylch cychwyn darpariaethau ar dreth incwm**

133. Mae Atodlen 1 yn disgrifio fframwaith ar gyfer cynnal refferendwm ynghylch rhoi'r darpariaethau ar dreth incwm mewn grym. Mae wedi'i drafftio mewn ffordd debyg i Atodlen 6 i DLlC 2006. Yn benodol, mae'n pennu pwy a fydd yn gymwys i bleidleisio, sut y caiff gwybodaeth ei darparu i bleidleiswyr, sut y caiff y refferendwm ei ariannu a sut y gellir herio'r canlyniad yn gyfreithiol. Mae'r Atodlen yn rhoi mwy o fanylion hefyd am y darpariaethau i'w cynnwys mewn Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor a wneir o dan gymal 11.

**Cymal 13: Cychwyn y darpariaethau ar dreth incwm ayb os bydd mwyafrif o blaid**

134. Mae cymal 13 yn disgrifio'r weithdrefn ar gyfer rhoi'r darpariaethau ar dreth incwm mewn grym, a rhai o'r diwygiadau a wneir gan gymal 10, os bydd mwyafrif y pleidleiswyr mewn refferendwm yn pleidleisio o blaid hynny.

135. Mae *is-adran (2)* yn caniatáu i Drysorlys EM wneud gorchymyn a fydd yn dod â'r darpariaethau treth incwm i rym.

136. Mae *is-adran (3)(a)* yn esbonio bod yn rhaid penodi diwrnod drwy orchymyn ar gyfer gweithredu pob un o'r darpariaethau a fewnosodir gan gymal 8 a 9, ac mae *is-adran (3)(b)* yn nodi y gall gorchymyn ddarparu ar gyfer i'r darpariaethau yng nghymalau 8 a 9 ddod i rym yng nghyswllt blwyddyn dreth neu flwyddyn ariannol.

137. Mae *is-adran (4)* yn nodi bod yn rhaid i flwyddyn dreth a bennir o dan is-adran (3)(b) ddechau ar ddiwrnod a bennir o dan is-adran (3)(a), neu ar ôl y diwrnod hwnnw.

138. Mae *is-adran (5)* yn darparu bod yn rhaid pennu blwyddyn dreth fel y flwyddyn gyntaf y gellir pasio cynnig ar gyfer y gyfradd Gymreig fel rhan o orchymyn a fydd yn dod â'r darpariaethau hyn i rym.

139. Mae *is-adrannau (6) a (7)* yn darparu'r ddarpariaeth gychwyn ar gyfer y diwygiadau a wneir gan gymal 10 i'r diffiniad o drethdalwr yn yr Alban sydd i ddod yn weithredol pan ddaw darpariaethau'r gyfradd Gymreig yn weithredol. Daw'r darpariaethau hyn i rym drwy orchymyn a wneir gan Drysorlys EM. O dan *is-adran (8)*, ni chaiff y diwygiadau hyn ddod yn weithredol cyn y cyflwynir cyfradd dreth yr Alban (disgwyliedig Ebrill 2016).

140. Mae *is-adran (9)* yn caniatáu i ddarpariaeth wahanol gael ei gwneud ar gyfer gwahanol rannau o'r diwygiadau sydd wedi'u gwneud gan gymalau 8 a 9. Er enghraifft, bydd yn rhaid i adrannau 116J a 116K o DLlC 2006 ddod i rym cyn darpariaethau eraill er mwyn gallu ad-dalu costau y bydd Cyllid a Thollau EM yn eu hwynebu wrth weithredu'r gyfradd Gymreig ac fel y gall y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar berfformiad Cyllid a Thollau EM yn cyflwyno'r gyfradd Gymreig.

**Cymal 14: Treth Gymreig ar drafodion sy'n ymwneud â buddiannau mewn tir**

141. Gyda'i gilydd, mae cymalau 14 a 15 yn darparu'r mecanwaith i roi terfyn ar gasglu a rheoli treth dir y dreth stamp (TDDS) yng Nghymru ac yn caniatáu i'r Cynulliad gyflwyno ei dreth ei hun ar drafodion tir.

142. Mae cymal 14 yn cyflwyno Pennod 3 newydd yn Rhan 4A o DLlC 2006, sy'n diffinio cwmpas y dreth ddatganoledig hon sydd, yn fras, yn dreth ar drafodion sy'n gymwys i gaffael buddiannau mewn tir yng Nghymru. Mae cymal 14 yn datgymhwyso TDDS drwy eithrio trafodion tir yng Nghymru o godi tâl am TDDS, oddi ar ddyddiad sydd i'w bennu gan Drysorlys EM. Mae Atodlen 2 yn cynnwys rhagor o ddiwygiadau'n ymwneud â datgymhwyso TDDS i Gymru.

143. Mae TDDS yn dreth ar drafodion sy'n gymwys wrth gaffael buddiant trethadwy mewn tir. Mae'r diffiniad o fuddiant trethadwy (*"chargeable interest"*) yn adran 48 o Ddeddf Cyllid 2003 yn cynnwys ystâd, buddiant, hawl neu bŵer mewn neu dros dir yng Nghymru a Lloegr neu Ogledd Iwerddon (mae tir yn yr Alban wedi'i eithrio gan Ddeddf yr Alban 2012, er nad yw'r diwygiadau hynny wedi dod i rym eto).

144. Bydd y dreth yn cael ei datganoli'n llwyr drwy eithrio caffaeliadau ar fuddiannau mewn tir yng Nghymru o godi tâl am TDDS a rhoi pŵer i'r Cynulliad i drethu'r caffaeliadau hynny. Gall y dreth ddatganoledig fod yn gymwys heb ystyriaeth i fan preswylio unrhyw barti i'r trafodiad.

145. Mae *is-adran (1)* o gymal 14 yn cyflwyno Pennod 3 (adrannau 116L a 116M) yn y Rhan 4A newydd o DLlC 2006 sy'n darparu ar gyfer y dreth Gymreig ddatganoledig.

146. Mae adran 116L newydd yn darparu ar gyfer y dreth Gymreig ddatganoledig ac, wrth ei darllen gyda'r diwygiad i Atodlen 7 a wneir gan gymal 6(9), yn rhoi pŵer i'r Cynulliad i godi treth ar drafodion ar y caffaeliadau hynny. Mae adran 116L(1) yn darparu bod treth a godir ar drafodiad tir yng Nghymru ac sy'n cydymffurfio â gofynion yr adran hon yn dreth ddatganoledig. Mae adran 116L(2) yn diffinio trafodion tir yng Nghymru.

147. Mae adran 116L(3) yn egluro y ceir cymhwyso treth o'r fath pa un a yw'r trafodiad wedi'i gyflawni drwy ddogfen ffurfiol neu beidio a heb ystyriaeth i fan preswylio'r partïon i'r trafodiad.

148. Mae adran 116L(4) yn eithrio trafodion i'r graddau eu bod yn ymwneud â thir sydd o dan y marc distyll cymedrig. Mae adran 116L(5) yn eithrio Gweinidogion llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig a chyrff corfforaethol sy'n gysylltiedig â deddfwrfeydd yn y DU. Mae hyn yn gyson ag eithriadau tebyg yn y ddeddfwriaeth ar TDDS a bydd yn gymwys i Weinidogion dim ond pan fyddant yn gweithredu yn rhinwedd eu swyddi Gweinidogol.

149. Mae *is-adran (2)* o gymal 14 yn sicrhau na all y dreth ddatganoledig fod yn gymwys i drafodiad tir y mae TDDS yn gymwys iddo a thrwy hynny'n cysylltu cychwyn y dreth â datgymhwyso TDDS yng Nghymru o dan gymal 15.

**Cymal 15: Datgymhwyso treth dir y dreth stamp y DU**

150. Mae cymal 15 yn darparu ar gyfer datgymhwyso TDDS drwy gyfeirio at ddyddiad dod i rym (*"effective date"*) y trafodiad tir at ddibenion TDDS. Fel arfer, y dyddiad dod i rym yw dyddiad cwblhau'r contract prynu ond gall fod yn gynharach os bydd y trafodiad wedi'i gyflawni i raddau helaeth (hynny yw, os yw'r gydnabyddiaeth am y trafodiad wedi'i thalu neu'r eiddo wedi'i feddiannu) cyn y dyddiad hwn.

151. Mae *is-adran (1)* yn cyflwyno'r diwygiadau i'r darpariaethau ar TDDS yn Rhan 4 o Ddeddf Cyllid 2003, ac mae *is-adran (2)* yn diwygio'r diffiniad o fuddiannau trethadwy (*"chargeable interests"*) yn adran 48 drwy ei gyfyngu i fuddiannau mewn tir yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

152. Mae *is-adran (3)* yn cyflwyno Atodlen 2, sy'n cael ei thrafod yn fanylach ym mharagraff 162 isod.

153. Mae *is-adran (4)* yn cymhwyso'r diwygiadau a gyflwynwyd gan y cymal ac Atodlen 2 at drafodion tir ac iddynt ddyddiad dod i rym sydd ar neu ar ôl dyddiad a bennwyd gan Drysorlys EM.

154. Mae *is-adran (5)* yn gwneud darpariaethau trosiannol i sicrhau bod TDDS yn parhau'n gymwys i drafodion lle y mae contract wedi'i wneud cyn neu ar y dyddiad y mae Bil Cymru yn cael Cydsyniad Brenhinol.

155. Mae *is-adran (6)* yn datgymhwyso'r rheolau trosiannol yn is-adran (5) lle y ceir digwyddiadau penodol sy'n ymwneud â'r trafodiad ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol.

**Cymal 16: Gwybodaeth am drafodion tir yng Nghymru**

156. Mae cymal 16 yn darparu ar gyfer cyflenwi gwybodaeth i Cyllid a Thollau EM am drafodion tir yng Nghymru, gan na fydd y wybodaeth hon ar gael bellach i Cyllid a Thollau EM o ffurflenni trafodion tir.

157. Mae *is-adran (1)* yn mewnosod adran 116M newydd ym Mhennod 3 o Ran 4A i DLlC 2006 (a fewnosodir gan gymal 14), sy'n gosod dyletswydd i ddarparu

gwybodaeth benodol i Cyllid a Thollau EM am drafodion tir yng Nghymru.

158. Mae adran 116M(1) yn darparu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru roi i Cyllid a Thollau EM y wybodaeth sy'n dod o dan is-adran (2) y gall Cyllid a Thollau EM ofyn amdani. Mae adran 116M(2) yn darparu bod y wybodaeth dan sylw yn wybodaeth berthnasol yng nghyswllt trafodiad tir yng Nghymru (yn unol â'r diffiniad yn adran 116L newydd) a dim ond os yw ym meddiant neu dan reolaeth Llywodraeth Cymru y bydd yn rhaid datgelu'r wybodaeth.

159. Mae adran 116M(3) yn diffinio gwybodaeth berthnasol ("*relevant information*") at y diben hwn ac mae adran 116M(4) yn darparu bod y wybodaeth i'w darparu mewn fformat a allai gael ei fynnu'n rhesymol gan Cyllid a Thollau EM.

160. Mae adran 116M(5) yn darparu y bydd y wybodaeth a gaiff Cyllid a Thollau EM o dan yr adran hon yn cael ei thrin at ddibenion DCCTh 2005 fel gwybodaeth a gafwyd mewn cysylltiad ag un o'u swyddogaethau hwy.

161. Mae *is-adran (2)* o gymal 16 yn peri bod y cymal yn berthnasol i drafodion sy'n destun y dreth ddatganoledig y darparwyd ar ei chyfer gan adran 116L.

**Atodlen 2: treth Gymreig ar drafodion tir: diwygiadau canlyniadol**

162. Mae'r Atodlen hon yn cynnwys rhagor o ddiwygiadau'n ymwneud â datgymhwyso TDDS yng Nghymru.

**Cymal 17: Treth Gymreig ar wastraff a waredir mewn safleoedd tirlenwi**

163. Ar hyn o bryd codir treth tirlenwi am waredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru a Lloegr neu Ogledd Iwerddon (mae safleoedd tirlenwi yn yr Alban wedi'u heithrio gan Ddeddf yr Alban 2012, er nad yw'r diwygiadau hynny wedi dod i rym eto). Gyda'i gilydd, mae cymalau 17 ac 18 yn darparu'r mecanwaith i roi terfyn ar gasglu a rheoli treth tirlenwi yng Nghymru a chaniatáu i'r Cynulliad gyflwyno ei dreth ei hun ar waredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi.

164. Mae cymal 17 yn cyflwyno Pennod 4 newydd yn Rhan 4A o DLlC 2006, sy'n diffinio cwmpas pŵer Llywodraeth Cymru i gyflwyno treth ar waredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru. Mae cymal 18 yn datgymhwyso treth tirlenwi drwy eithrio gwaredu gwastraff yng Nghymru o godi treth tirlenwi oddi ar ddyddiad sydd i'w bennu gan Drysorlys EM.

165. Mae *is-adran (1)* yn cyflwyno Pennod 4 (adran 116N) o Ran 4A newydd o DLlC 2006. Mae adran 116N(1) yn darparu bod treth a godir ar waredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru yn dreth ddatganoledig ac mae adran 116N(2) yn egluro pryd y mae gwaredu'n waredu mewn safle tirlenwi.

166. Mae *is-adran (2)* yn sicrhau na ellir codi'r dreth ddatganoledig am waredu gwastraff y mae'r dreth tirlenwi'n gymwys iddo, a thrwy hynny mae'n cysylltu cychwyn y

dreth ddatganoledig â datgymhwyso treth tirlenwi yng Nghymru o dan gymal 18.

**Cymal 18: Datgymhwyso treth tirlenwi'r DU**

167. Mae cymal 18 yn darparu ar gyfer datgymhwyso treth tirlenwi ar waredu gwastraff yng Nghymru drwy gyfeirio at waredu gwastraff ar neu ar ôl dyddiad sydd wedi'i bennu gan Drysorlys EM drwy orchymyn o dan *is-adran (3)*. Mae *is-adran (2)* yn cyfyngu treth tirlenwi i waredu ar wastraff yn Lloegr neu Ogledd Iwerddon yn rhinwedd diwygio adran 40 o Ddeddf Cyllid 1996 (sydd wedi'i diwygio o'r blaen gan Ddeddf yr Alban 2012).

**Cymal 19: Benthyca gan Weinidogion Cymru**

168. Mae'r cymal hwn yn diwygio adrannau 121 a 122 o DLlC 2006, ac yn mewnosod adran 122A newydd, i ddiwygio'r amgylchiadau lle y caiff Gweinidogion Cymru fenthyca ac i egluro'r prif reolaethau a chyfyngiadau ar fenthyca o'r fath.

169. Mae'r cymal yn galluogi Gweinidogion Cymru i fenthyca – o dan reolaethau a chyfyngiadau Trysorlys EM – at y dibenion canlynol:

a) rheoli cyfnewidioldeb y derbyniadau yn ystod y flwyddyn, lle y mae gwahaniaeth rhwng yr incwm gwirioneddol ar gyfer mis penodol a'r derbyniadau a ragwelwyd ar gyfer y mis hwnnw;

b) darparu balans gweithio ar gyfer Cronfa Gyfunol Cymru (CGC) er mwyn rheoli llif arian;

c) delio â'r gwahaniaethau rhwng y rhagolwg ar gyfer y flwyddyn gyfan a'r derbyniadau alldro ar gyfer trethi datganoledig;

d) ariannu gwariant cyfalaf.

170. Mae *is-adran (1)* yn cyflwyno'r diwygiadau i DLlC 2006.

171. Mae *is-adran (2)* yn cyflwyno'r diwygiadau i'r darpariaethau presennol ar fenthyca yn adran 121 o DLlC 2006.

172. Mae *is-adran (3)* yn cymryd lle is-adran (1) yn adran 121. Mae'r is-adran (1) newydd:

- yn ailddeddfu adrannau 121(1)(a) a (b) o DLlC 2006, sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i fenthyca dros dro oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol i ddarparu balans gweithio ar gyfer CGC ac i reoli cyfnewidioldeb y derbyniadau yn ystod y flwyddyn; ac

- yn ymestyn pwerau benthyca presennol Gweinidogion Cymru i gynnwys

benthyca oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol ar draws blynyddoedd er mwyn ariannu gwyriadau rhwng y rhagolwg ar gyfer y flwyddyn gyfan a derbyniadau alldro'r trethi datganoledig.

173. Mae *is-adran (3)* hefyd yn ychwanegu dwy is-adran newydd yn adran 121((1A) ac (1B)):

- Mae is-adran (1A) yn galluogi Gweinidogion Cymru i fenthyca symiau i ariannu gwariant cyfalaf, ar ôl cael cymeradwyaeth gan Drysorlys EM. Rhaid i'r benthyca fod ar ffurf benthyciad un ai oddi wrth y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol (drwy'r Ysgrifennydd Gwladol) neu oddi wrth ddarparwr benthyciadau arall, fel banc masnachol. Mae'r is-adran newydd yn ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn benthyca drwy gymryd benthyciadau, ac ni chaniateir iddynt gyhoeddi giltiau neu fondiau Cymreig.

- Mae is-adran (1B) yn diffinio gwariant cyfalaf. Mae'r diffiniad o wariant cyfalaf wedi'i godi o'r rheolau (sydd wedi'u darparu gan Drysorlys EM i Lywodraeth Cymru) ar gyfer paratoi cyfrifon Gweinidogion Cymru o dan adran 131 o DLlC 2006.

174. Mae *is-adran (4)* yn ddiwygiad canlyniadol i gydnabod y ffaith nad oes rhaid benthyca oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol ym mhob achos.

175. Mae *is-adran (5)* yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy orchymyn ac ar ôl cael cydsyniad gan Drysorlys EM, newid y ffynonellau benthyca sydd ar gael i Weinidogion Cymru sydd wedi'u nodi yn yr adran 121(1A) newydd. Rhaid cael cymeradwyaeth gan Dŷ'r Cyffredin i Orchmynion a wneir o dan yr adran hon drwy'r weithdrefn gadarnhaol.

176. Mae *is-adran (6)* yn cyflwyno'r diwygiadau i'r darpariaethau presennol ar fenthyca yn adran 122 o DLlC 2006.

177. Mae *is-adran (7)* yn pennu bod y terfyn o £500 miliwn sy'n cael ei gymhwyso at gyfanswm y prifsymiau sydd heb eu had-dalu a fenthyciwyd o dan yr adran 121 bresennol yn gymwys yn awr i'r pwerau benthyca estynedig sydd wedi'u rhestru yn yr adran 121(1) newydd (hynny yw, nid yw'n cynnwys benthyca ar gyfer gwariant cyfalaf o dan yr is-adran (1A) newydd).

178. Mae *is-adrannau (8) a (9)* yn diwygio adran 122(3) o DLlC 2006 ac yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy orchymyn ac ar ôl cael cydsyniad gan Drysorlys EM, ddiwygio'r terfyn o £500 miliwn ar fenthyca cyfredol gan Weinidogion Cymru drwy ei godi neu ei ostwng, ond nid yn is na'r terfyn cychwynnol o £500 miliwn ar unrhyw adeg. Mae'r darpariaethau hyn yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gynyddu'r swm o bryd i'w gilydd, er enghraifft i gadw'n wastad â chwyddiant neu i fynd i'r afael ag amgylchiadau eithriadol. Rhaid cael cymeradwyaeth gan Dŷ'r Cyffredin i

Orchmynion a wneir o dan yr adran hon drwy'r weithdrefn gadarnhaol.

179. Mae *is-adran (10)* yn mewnosod adran 122A newydd yn DLlC 2006 sy'n cynnwys darpariaethau ychwanegol ar fenthyca cyfalaf.

180. Mae adran 122A(1) yn darparu na chaiff cyfanswm y prifsymiau sydd heb eu had-dalu a fenthyciwyd o dan adran 121(1A) – benthyca i ariannu gwariant cyfalaf – fod yn fwy na £500 miliwn. Mae'r ddarpariaeth hon, ynghyd â'r un yn adran 121, yn golygu na all cyfanswm y prifsymiau sydd heb eu had-dalu (gwariant cyfredol a chyfalaf) fod yn fwy nag £1 biliwn.

181. Mae adran 122A(2) a (3) yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy orchymyn ac ar ôl cael cydsyniad gan Drysorlys EM, ddiwygio'r terfyn o £500 miliwn drwy ei godi neu ei ostwng, ond nid yn is na'r terfyn cychwynnol o £500 miliwn ar unrhyw adeg. Rhaid cael cymeradwyaeth i Orchmynion gan Dŷ'r Cyffredin drwy'r weithdrefn gadarnhaol, yn unol â'r adran 122A(4) newydd.

182. Mae adran 122A(5), (6) a (7) yn cynnwys rheolau ychwanegol ar fenthyca gan Weinidogion Cymru i ariannu gwariant cyfalaf. Yn benodol:

- Mae is-adran (5) yn darparu nad yw darparwyr benthyciadau wedi'u rhwymo i wneud ymholiadau am y pŵer i fenthyca (er enghraifft drwy holi a yw Llywodraeth Cymru wedi torri ei therfynau benthyca neu a yw'n gweithredu heb gymeradwyaeth Trysorlys EM). Heb ddarpariaeth o'r fath, byddai gan ddarparwyr benthyciadau le i ofni y byddai amheuaeth ynghylch y pŵer i fenthyca'n peri nad oedd modd gorfodi ad-daliadau am fenthyciadau a gallent ystyried Llywodraeth Cymru yn fenthyciwr peryglus.

- Mae is-adran (6) yn datgan bod Gweinidogion Cymru wedi'u gwahardd rhag morgeisio neu arwystlo unrhyw eiddo i warantu arian y maent wedi'i fenthyca (ond nid yw hyn yn effeithio ar y rheol yn adran 121(3) o DLlC 2006 bod benthyciadau i'w codi ar CGC).

- Mae is-adran (7) yn darparu na ellir cymryd camau gorfodi ynghylch unrhyw warant a roddwyd yn groes i is-adran (6).

**Cymal 20: Diddymu'r pŵer benthyca presennol**

183. Mae'r cymal hwn yn diddymu'r paragraffau yn Atodlen 3 i Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 sy'n ymwneud â benthyca a gwarantu.

184. Mae *is-adran (1)* yn diddymu paragraff 3 (pŵer i Weinidogion Cymru i fenthyca arian) a pharagraff 6 (pŵer i Drysorlys EM i warantu arian sydd wedi'i fenthyca o dan baragraff 3) yn Atodlen 3 i Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975.

185. Mae *is-adran (2)* yn datgan nad yw'r diddymiadau yn is-adran (1) yn effeithio

ar yr atebolrwydd sydd ar Weinidogion Cymru o hyd i ad-dalu arian a fenthyciwyd o'r blaen o dan baragraff 3, nac ar unrhyw warant a roddwyd o'r blaen gan Drysorlys EM o dan baragraff 6.

186. Mae *is-adrannau (3), (4) a (5)* yn pennu y bydd cyfanswm y prifsymiau sy'n ddyledus, yn union cyn i is-adran (1) ddod i rym, ar ôl eu benthyca ar gyfer gwariant cyfalaf (fel y'i diffinnir gan adran 131 o DLlC 2006), o dan baragraff 3, ar neu ar ôl y diwrnod y bydd y Ddeddf hon yn cael ei phasio, yn cyfrif tuag at y terfyn ar fenthyca cyfalaf sydd wedi'i nodi yn yr adran 122A(1) newydd. Felly, nid yw hen ddyledion a etifeddwyd gan Lywodraeth Cymru cyn i'r ddeddf hon gael ei phasio wedi'u cynnwys yn y terfyn benthyca cyfalaf o £500 miliwn. Ond mae'n cynnwys unrhyw fenthyca newydd a wneir o dan y pwerau hyn ar ôl pasio'r Ddeddf (ac mae'r Trysorlys wedi cytuno y caiff Llywodraeth Cymru ddefnyddio swm ohono yng nghyswllt yr M4, os bydd yn penderfynu bwrw ymlaen â'r prosiect hwn).

**Cymal 21: Trefniadau cyllidebol**

187. Mae cymal 21 yn rhoi'r cymhwysedd i ddeddfu i'r Cynulliad ar gyfer ei drefniadau cyllidebol ei hun drwy ddiwygio Atodlen 7 i DLlC 2006 (sy'n rhestru'r pynciau y gall y Cynulliad ddeddfu arnynt).

188. Mae *is-adran (2)* yn mewnosod pwnc newydd ym mharagraff 13 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru), drwy ddarparu bod *trefniadau cyllidebol* o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Mae'r pwnc newydd yn diffinio trefniadau cyllidebol fel trefniadau ar gyfer blwyddyn ariannol sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o dri pheth. Yn gyntaf, awdurdodi faint o adnoddau y ceir eu defnyddio neu eu cadw naill ai gan unigolion perthnasol neu yn unol â deddfiad perthnasol. Yn ail, awdurdodi'r symiau y ceir eu talu o Gronfa Gyfunol Cymru i unigolion perthnasol neu yn unol â deddfiad perthnasol. Mae'r diffiniad o unigolion perthnasol *("relevant persons")* yn cynnwys Comisiwn y Cynulliad a Gweinidogion Cymru. Diffinnir deddfiad perthnasol *("relevant enactment")* fel deddfiad sy'n darparu ar gyfer talu allan o Gronfa Gyfunol Cymru. Yn drydydd, mae trefniadau cyllidebol yn ymwneud â chraffu (gan y Cynulliad) ar y defnydd o'r symiau hyn, neu ar arfer pwerau benthyca gan Weinidogion Cymru.

189. Byddai hyn yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu yng nghyswllt trefniadau ar gyfer craffu a gosod cyllideb flynyddol Gweinidogion Cymru, unigolion perthnasol eraill ac unrhyw gorff arall sy'n derbyn taliadau oddi wrth Gronfa Gyfunol Cymru yn rhinwedd deddfiad (naill ai deddf Seneddol neu ddeddf Cynulliad), ac, er enghraifft, byddai'n gadael i'r Cynulliad basio Deddf Cyllid flynyddol yn lle'r cynnig cyllidebol blynyddol presennol. Gan fod gan y Cynulliad hefyd gymhwysedd ar gyfer trethi datganoledig, gallai'r trefniadau hyn gynnwys penderfynu ar y cyfraddau treth yng nghyswllt y cyfryw drethi, rhagolygon derbyniadau treth, amrywiadau, benthyca ar gyfer dibenion cyfredol a chyfalaf a symiau ar gyfer ad-dalu benthyciadau yn ogystal ag awdurdodi faint y caiff unigolion perthnasol ei wario. Fel y disgrifir ym mharagraff 61 o'r nodiadau hyn, rhaid i'r gyfradd dreth incwm Gymreig (sy'n amodol ar

refferendwm) gael ei gosod gan benderfyniad yn y Cynulliad. Mater i'r Cynulliad fydd penderfynu a ddylai'r penderfyniad hwnnw gael ei ystyried yng nghyd-destun ei drefniadau cyllidebol.

190. Er mwyn deddfu ar gyfer trefniadau cyllidebol newydd, bydd angen i'r Cynulliad addasu rhai adrannau yn Rhan 5 o DLlC 2006 sy'n cyfeirio at y broses gyfredol ar gyfer cynigion cyllidebol.

191. Mae is-adran (3) yn addasu paragraff 5 o Ran 2 o Atodlen 7 (cyfyngiadau cyffredinol ar gymhwysedd) er mwyn caniatáu i'r Cynulliad addasu'r adrannau o DLlC 2006 a restrir yn y paragraff hwnnw. Mae is-adran (3)(a) yn cynnwys adran 120(2) ac adrannau 125 i 128 yn y rhestr hon. Mae isadran (3)(b) yn cynnwys adran 119, ond dim ond i'r graddau y mae unrhyw addasiad yn berthnasol i'r amcan daliadau ar gyfer blwyddyn ariannol i Gronfa Gyfunol Cymru neu i Weinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol. Hefyd, efallai y bydd angen i'r Cynulliad wneud rhai addasiadau i ddarpariaeth arall yn Rhan 5. Felly, mae is-adran (3) yn mewnosod is-baragraff newydd (4A) ym mharagraff 5 fel y gall Deddf Cynulliad wneud diwygiadau i adrannau eraill yn Rhan 5 neu adran 159 o DLlC 2006 gyhyd (a) â'u bod yn gysylltiedig â darpariaethau mewn Deddf Cynulliad sy'n ymwneud â threfniadau cyllidebol neu drethi datganoledig, neu'n ganlyniadol iddynt, a (b) bod cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol wedi'i dderbyn iddynt.

**Cymal 22: Adroddiadau ar gyflawni a gweithredu'r Rhan hon**

192. Mae'r cymal hwn yn disgrifio'r gofynion a fydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru i adrodd ar gyflawni a gweithredu'r pwerau cyllid newydd.

193. Mae *is-adrannau (1) a (3)* yn ei gwneud yn ofynnol bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cyhoeddi adroddiad ar gyflawni a gweithredu'r darpariaethau cyllid yn Rhan 2 o fewn un flwyddyn ar ôl pasio'r Ddeddf ac wedyn cyn pob pen blwydd ar ôl pasio'r Ddeddf. Rhaid parhau i gyhoeddi'r adroddiadau hyn tan flwyddyn ar ôl trosglwyddo'r pwerau trethu a benthyca'n llwyr i'r Cynulliad ac i Weinidogion Cymru, yn unol ag *is-adran (4)*. Rhaid gosod copïau o'r adroddiadau hyn gerbron dau Dŷ'r Senedd a'u hanfon at Weinidogion Cymru. Rhaid i Weinidogion Cymru osod yr adroddiadau gerbron y Cynulliad.

194. Mae *is-adrannau (2) a (3)* yn ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn gwneud ac yn gosod adroddiadau o'r un math gerbron y Cynulliad gan ddilyn yr un amserlen, tan y cyfryw amser sydd wedi'i bennu yn is-adran (4), ac yn darparu copi o bob adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol i'w osod gerbron dau Dŷ'r Senedd.

195. Mae *is-adrannau (5) a (6)* yn nodi sut y penderfynir bod darpariaeth yn Rhan 2 wedi'i rhoi ar waith, er mwyn pennu am ba hyd y bydd yn rhaid parhau i gyhoeddi'r adroddiadau.

196. Mae *is-adran (7)* yn rhestru'r meysydd y mae'n rhaid eu cynnwys ym mhob

adroddiad:

a) diweddariad ar bob agwedd ar gynnydd tuag at gyflawni'r darpariaethau yn Rhan 2 ers yr adroddiad blaenorol;

b) unrhyw gamau pellach y dylid eu cymryd i weithredu'r darpariaethau yn Rhan 2;

c) asesiad o weithrediad y darpariaethau yn Rhan 2 sydd wedi'u rhoi ar waith;

d) asesiad o unrhyw newidiadau yn y darpariaethau yn Rhan 2;

e) yr effaith ar floc grant Cymru o ganlyniad i drosglwyddo pwerau trethu;

f) unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â ffynonellau refeniw'r Cynulliad y dylid eu dwyn i sylw'r Senedd neu'r Cynulliad.

197. Nes ceir pleidlais o blaid rhoi'r darpariaethau ar dreth incwm mewn grym, mae *is-adran (8)* yn eithrio adrannau 8 a 9 (darpariaethau ar dreth incwm) o'r datganiadau sy'n ofynnol o dan is-adran (7)(a) a (b).

**RHAN 3: AMRYWIOL**

**Cymal 23: Awdurdodau tai lleol: terfynau ar ddyled y cyfrif refeniw tai**

198. Mae cymal 23 yn diwygio Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ("Deddf 1989").

199. Mae'r cymal hwn yn galluogi Trysorlys EM i osod terfyn ar lefel uchaf y ddyled tai y mae awdurdodau tai lleol ("ATLlau") Cymru yn cael ei dal, gyda'i gilydd, ac yn ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidog Cymru yn penderfynu pa faint o ddyled tai y caiff pob ATLl ei dal o dan y terfyn hwnnw. Mae hyn yn creu system debyg yng Nghymru i'r un sy'n gymwys yn Lloegr yn rhinwedd adrannau 171 – 173 o Ddeddf Lleoliaeth 2011.

200. Mae *is-adran (1)* yn cyflwyno'r diwygiadau i Ddeddf 1989.

201. Mae *is-adran (2)* yn mewnosod adrannau 76A a 76B newydd yn Neddf 1989. Mae'n darparu fel a ganlyn:

- y caiff Trysorlys EM benderfynu ar uchafswm y ddyled tai y caiff ATLlau Cymru ei dal gyda'i gilydd;

- bod rhaid i Drysorlys EM anfon copi o'i benderfyniad at Weinidogion Cymru a gosod copi ohono gerbron Tŷ'r Cyffredin;

- y caiff Gweinidogion Cymru wneud penderfyniadau o bryd i'w gilydd ynghylch pob ATLl am faint y ddyled tai yr ystyrir ei fod yn ei dal ac uchafswm y ddyled tai y caiff ei dal;

- na fydd y cyfanswm y caiff Gweinidogion Cymru ei benderfynu arno fod yn fwy na'r swm sydd wedi'i benderfynu arno gan Drysorlys EM;

- bod rhaid i Weinidogion Cymru wneud penderfyniadau o fewn 6 mis ar ôl cael penderfyniad gan Drysorlys EM;

- diffiniad o ddyled tai sef dyled sy'n cael ei dal gan yr ATLl yng nghyswllt swyddogaethau tai'r ATLl ac eiddo arall yn ei Gyfrif Refeniw Tai; a

- bod gan Weinidogion Cymru y pŵer i gael gwybodaeth ar gyfer ATLlau Cymru er mwyn iddynt wneud y penderfyniadau.

202. Mae *is-adran (3)* yn diwygio adran 85 o Ddeddf 1989 fel bod Gweinidogion Cymru yn gallu defnyddio'r pwerau y mae'n eu darparu i gael gwybodaeth gan ATLlau at ddibenion yr adran 76A newydd.

203. Mae *is-adran (4)* yn cyflwyno diwygiadau i adran 87 o Ddeddf 1989 (sy'n darparu ar gyfer y ffordd o wneud penderfyniadau a hysbysu ATLlau amdanynt).

204. Mae *is-adran (5)* yn newid cyfeiriadau yn adran 87 at "Secretary of State" yn "appropriate person". Y diffiniad o "appropriate person" yn adran 88 o Ddeddf 1989 yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr a Gweinidogion Cymru yng Nghymru.

205. Mae *is-adran (6)* yn darparu nad yw is-adran (1)(b) o adran 87 (sy'n darparu y gellir gwneud penderfyniadau cyn, yn ystod neu ar ôl diwedd y flwyddyn y maent yn ymwneud â hi) yn gymwys i benderfyniadau sydd wedi'u gwneud gan Weinidogion Cymru o dan yr adran 76A newydd.

206. Mae *is-adran (7)* yn cymhwyso'r term "appropriate person" a ddiffiniwyd at adran 87(2).

**Cymal 24: Gwaith gan Gomisiwn y Gyfraith sy'n ymwneud â Chymru**

207. Mae'r pwerau sydd gan Gomisiwn y Gyfraith ar hyn o bryd ar gyfer cynghori Llywodraeth Cymru yn aneglur. Ar hyn o bryd, adrannau llywodraeth y DU yw'r unig rai sy'n cyfeirio materion sy'n ymwneud â diwygio cyfraith Cymru a Lloegr, er y gall Llywodraeth Cymru ofyn i'r adrannau hyn gyfeirio materion ar ran Llywodraeth

Cymru.

208. Mae cymal 24 yn mewnosod darpariaethau newydd yn Neddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 ("Deddf 1965") er mwyn gosod dyletswydd newydd ar Gomisiwn y Gyfraith i ddarparu cyngor a gwybodaeth yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru. Mae hyn yn ei gwneud yn glir y bydd Gweinidogion Cymru yn gallu cyfeirio materion sy'n ymwneud â diwygio'r gyfraith at Gomisiwn y Gyfraith eu hunain.

209. Mae *is-adran 3* o'r cymal hwn yn darparu nad yw'n ofynnol bod yr Arglwydd Ganghellor, wrth baratoi adroddiadau ar gynigion gan Gomisiwn y Gyfraith o dan yr adran 3A bresennol yn Neddf 1965, yn adrodd ar gynigion y bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru adrodd arnynt o dan yr adran 3C newydd.

210. Mae adran 3C newydd wedi'i mewnosod yn Neddf 1965 gan *is-adran 4* o gymal 24 i ddarparu bod rhaid i Weinidogion Cymru lunio adroddiad blynyddol i'w osod gerbron y Cynulliad. Rhaid i'r adroddiad gynnwys manylion unrhyw gynigion gan Gomisiwn y Gyfraith sy'n ymwneud â materion a ddatganolwyd i Gymru ac sydd, ers yr adroddiad diwethaf, un ai wedi'u cyflawni neu heb gael eu cyflawni eto.

211. Y diffiniad o gynigion gan Gomisiwn y Gyfraith yw unrhyw gynnig neu argymhelliad i ddiwygio'r gyfraith sydd wedi'i gyhoeddi mewn adroddiad gan Gomisiwn y Gyfraith. Bydd cynnig gan Gomisiwn y Gyfraith yn ymwneud â materion a ddatganolwyd i Gymru (*"Welsh devolved matters"*) os yw o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad neu os yw'n fater sy'n ymwneud â swyddogaethau y gellir eu harfer gan Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru, Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru neu Gomisiwn y Cynulliad.

212. Os cafwyd cynigion yn y flwyddyn flaenorol sydd eto i'w cyflawni, rhaid cynnwys cynlluniau ar gyfer eu cyflawni, unrhyw benderfyniadau i beidio â'u cyflawni, a'r rhesymau dros unrhyw benderfyniad o'r fath, yn adroddiad Gweinidogion Cymru. Os nad oes unrhyw gynigion a gafwyd gan Gomisiwn y Gyfraith yn y flwyddyn ers yr adroddiad blaenorol ar faterion a ddatganolwyd i Gymru sydd heb eu cyflawni, ni fydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio adroddiad i'r Cynulliad.

213. Mae is-adran (4) o gymal 24 hefyd yn mewnosod adran 3D newydd yn Neddf 1965 i ddarparu ar gyfer protocol ynghylch gwaith gan Gomisiwn y Gyfraith sy'n ymwneud â Chymru. Byddai Comisiwn y Gyfraith a Gweinidogion Cymru yn cytuno ar y protocol a ddefnyddir ar gyfer gwaith gan Gomisiwn y Gyfraith sy'n ymwneud â materion a ddatganolwyd i Gymru.

214. Mae'n ofynnol bod yr Arglwydd Ganghellor yn cymeradwyo'r protocol, a all gynnwys darpariaeth ynghylch yr egwyddorion a'r dulliau i'w cymhwyso wrth benderfynu pa waith y bydd Comisiwn y Gyfraith yn ei gyflawni, y cyngor a'r wybodaeth y bydd Comisiwn y Gyfraith a Gweinidogion Cymru yn rhoi i'w gilydd, a'r ffordd y bydd Gweinidogion Cymru yn delio â chynigion gan Gomisiwn y Gyfraith. Mae'r is-adran hon wedi'i geirio mewn ffordd sy'n caniatáu hyblygrwydd

ynghylch darpariaethau'r protocol, er enghraifft yng nghyswllt ariannu ac agweddau ymarferol eraill ar faterion a gaiff eu cyfeirio gan Weinidogion Cymru.

215. Mae is-adran (4) hefyd yn darparu bod rhaid adolygu'r protocol yn gyson a bod rhaid ei osod gerbron y Cynulliad. Mae'n rhoi dyletswydd benodol hefyd ar Weinidogion Cymru a Chomisiwn y Gyfraith i ystyried y protocol.

216. Mae *is-adran 5* o gymal 24 yn gwneud diwygiad bach yn adran 5 o Ddeddf 1965 i egluro y bydd treuliau Comisiwn y Gyfraith bellach yn deillio nid yn unig o'r Senedd ond oddi wrth Weinidogion Cymru hefyd.

**RHAN 4: CYFFREDINOL**

**Cymal 25: Gorchmynion**

217. Mae cymal 25 yn pennu y bydd unrhyw orchymyn a wneir o dan y Ddeddf hon yn cael ei wneud drwy offeryn statudol.

**Cymal 26: Dehongli**

218. Cymal 26 yw'r cymal dehongli ar gyfer y Bil.

**Cymal 27: Pŵer i wneud darpariaeth atodol, ganlyniadol, ayb**

219. Mae *is-adran (1)* o gymal 27 yn rhoi pŵer i Drysorlys EM i wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig neu ganlyniadol, drwy wneud gorchymyn, yn ôl yr hyn sy'n ymddangos yn briodol i roi'r darpariaethau yn Rhan 2 (Cyllid) mewn grym. Gellir defnyddio gorchmynion o'r fath hefyd i wneud darpariaeth drosiannol, ddarfodol neu arbed yn ôl yr hyn sy'n ymddangos yn briodol. Mae *is-adran (3)* yn egluro bod gorchymyn sydd wedi'i wneud o dan yr adran hon yn gallu addasu'r Ddeddf ei hun, neu ddeddfiad sydd wedi'i basio cyn y Ddeddf hon neu yn yr un sesiwn â'r Ddeddf hon.

220. Mae'r darpariaethau hyn yn rhoi hyblygrwydd i Drysorlys EM i ddiwygio deddfwriaeth, er enghraifft, er mwyn paratoi ar gyfer rhoi'r darpariaethau ar dreth incwm (yng nghymalau 8 a 9) mewn grym ar ôl pleidlais o blaid hynny mewn refferendwm (y darperir ar ei gyfer o dan gymalau 10 ac 11).

221. Mae *is-adran (4)* yn ei gwneud yn ofynnol bod gorchymyn yn cael ei gymeradwyo gan Dŷ'r Cyffredin os yw'n cynnwys darpariaeth sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd wedi'i gwneud yn y Senedd neu'r Cynulliad. Os nad yw'n cynnwys darpariaeth o'r fath, mae *is-adran (5)* yn pennu y bydd y weithdrefn penderfyniad negyddol yn cael ei defnyddio.

**Cymal 28: Cychwyn**

222. Mae cymal 28 yn egluro sut y bydd adrannau'r Bil yn cael eu cychwyn. Mae

*is-adran (1)* yn pennu y bydd Rhan 4 (gan gynnwys y cymal hwn) yn dod i rym ar y diwrnod y caiff y Ddeddf ei phasio. O dan *is-adran (2)*, bydd adrannau eraill y Bil yn dod i rym ddau fis ar ôl pasio'r Ddeddf, ac eithrio adrannau 8, 9 a 10(5), (6), (7)(a) ac (8)(a) (y darpariaethau ar dreth incwm), adrannau 19 a 20 (benthyca gan Weinidogion Cymru) ac adran 23 (awdurdodau tai lleol: terfynau ar ddyled y cyfrif refeniw tai).

223. Mae *is-adran (3)* yn egluro bod y camau i roi adrannau 14, 15 a 16 (treth Gymreig ar drafodion tir) ac adrannau 17 a 18 (treth Gymreig ar waredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi) mewn grym yn ddarostyngedig i'r darpariaethau yn yr adrannau hynny am y ffordd y byddant yn cael eu gweithredu.

224. Mae *is-adran (4)* yn darparu ar gyfer rhoi'r darpariaethau ar dreth incwm yn adrannau 8, 9 a 10(5), (6), (7)(a) ac (8)(a) mewn grym ar ôl pleidlais gadarnhaol mewn refferendwm a elwir yn unol ag adran 13. Mae *is-adran (5)* yn darparu ar gyfer rhoi adrannau 19 a 23 mewn grym ar ddiwrnod a gaiff ei bennu drwy orchymyn gan Drysorlys EM. Mae *is-adran (6)* yn caniatáu i Drysorlys EM bennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol wrth roi adran 19 ac adran 23 mewn rym ac mae *is-adran (7)* yn darparu ar gyfer rhoi adran 20 mewn grym ar y diwrnod y bydd adran 121(1A) o DLlC 2006, sydd wedi'i mewnosod gan adran 19, yn dod i rym. Mae hyn yn sicrhau bod y pŵer benthyca presennol yn cael ei ddiddymu ar yr un pryd ag y mae'r pŵer newydd yn dod i rym.

**Cymal 29: Rhychwant a theitl byr**

225. Mae cymal 29 yn pennu rhychwant tiriogaethol a theitl byr y Bil.

**EFFEITHIAU ARIANNOL**

226. Mae'r costau uniongyrchol i Lywodraeth y DU yn sgîl darpariaethau'r Bil yn fach iawn. Yr eithriadau i hyn yw unrhyw gostau a wynebir gan y Comisiwn Etholiadol petai refferendwm ar ddatganoli pwerau treth incwm yn cael ei alw ac unrhyw gostau ychwanegol a wynebir gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol o ganlyniad i'r ddyletswydd a osodir yng Nghymal 8, adran 116K newydd o DLlC 2006 (gweler paragraffau 93 – 98 uchod). Mae'n werth nodi hefyd, fel y disgrifir yn Natganiad Polisi Ariannu Trysorlys EM, mai Llywodraeth Cymru fydd yn ysgwyddo'r gost y bydd Cyllid a Thollau EM yn ei hwynebu yng nghyswllt datganoli'r trethi a threth incwm datganoledig. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn wynebu rhai costau ychwanegol, yn enwedig mewn cysylltiad â chynnal unrhyw refferendwm ar bwerau treth incwm.

**GWEITHLU'R SECTOR CYHOEDDUS**

227. Rhagwelir na fydd unrhyw newidiadau yn staff adrannau'r Llywodraeth na'u hasiantaethau o ganlyniad i'r Bil hwn.

**ASESIAD EFFAITH**

228. Mae Swyddfa Cymru, ynghyd â Thrysorlys EM a Cyllid a Thollau EM, wedi llunio asesiad effaith lawn i gyd-fynd â'r Bil. Mae'r Asesiad Effaith wedi'i osod yn y swyddfa bleidleisio ac mae ar gael yn www.gov.uk. Mae'r Bil yn datganoli pwerau i'r Cynulliad ac felly nid yw'n gosod rheoliadau sylweddol ar fusnes. Felly, ystyrir bod effaith uniongyrchol y Bil yn fach iawn.

229. Mae'r Asesiad Effaith yn dangos yn glir, er nad oes lle i gredu y bydd y baich ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth yn fwy o ganlyniad i ddatganoli treth dir y dreth stamp a'r dreth tirlenwi, mae natur unrhyw newid yn y baich ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth yn dibynnu ar y penderfyniadau a wnaiff y Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn y dyfodol o ran trethi yn eu lle. Yn yr un modd, byddai effaith datganoli rhan o dreth incwm, yn amodol ar refferendwm, yn dibynnu ar benderfyniadau gweinyddol a pholisi a gymerir gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

230. Nid yw'n bosibl pennu union gostau ac effeithiau cynnydd mewn benthyca cyfalaf gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol. Er hynny, nododd Comisiwn Silk y byddai pwerau benthyca cyfalaf yn cyflwyno nifer o fanteision heb werth ariannol, gan gynnwys grymuso Llywodraeth Cymru a'i gwneud yn fwy atebol drwy roi mwy o hyblygrwydd iddi ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith yng Nghymru, a fyddai yn ei dro yn gallu hybu twf ac effeithlonrwydd.

231. Mae'r asesiad effaith hefyd yn nodi costau a buddion y newidiadau arfaethedig i drefniadau etholiadol y Cynulliad. Nid yw'r mesurau yn cyflwyno costau sylweddol nac yn darparu arbedion sylweddol.

**CYDNAWSEDD Â'R CONFENSIWN EWROPEAIDD AR HAWLIAU DYNOL**

232. O dan adran 19(1)(a) o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 ("Deddf 1998"), mae'n rhaid i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin neu yn Nhŷ'r Arglwyddi wneud datganiad cyn yr Ail Wrandawiad ar gydnawsedd darpariaethau'r Bil â hawliau'r Confensiwn (fel y diffinnir gan adran 1 o Ddeddf 1998).

233. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud y datganiad canlynol:

"Yn fy marn i, mae darpariaethau Bil Cymru yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn."

234. Mae'r Bil yn delio'n bennaf â'r trefniadau cyfansoddiadol sy'n gysylltiedig â rhannu cyfrifoldeb rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru o dan DLlC 2006. Felly, nid yw'n cael effaith uniongyrchol ar hawliau unrhyw unigolyn o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("CEHD").

235. Mae gan DLlC 2006 ei hun amddiffyniad ynddi ar gyfer hawliau CEHD am nad yw Deddfau'r Cynulliad yn gyfraith i'r graddau y mae unrhyw rai o'u darpariaethau yn

anghydnaws ag unrhyw rai o hawliau'r Confensiwn.[6] Hefyd, nid oes gan Weinidogion Cymru bŵer i wneud unrhyw is-ddeddfwriaeth, na gwneud unrhyw ddeddf arall, i'r graddau y mae'r ddeddfwriaeth neu'r ddeddf yn anghydnaws ag unrhyw rai o hawliau'r Confensiwn.[7]

236. Felly, o ran diwygiadau i DLlC 2006 sydd yn y Bil a datganoli pwerau i'r Cynulliad, dylent gael eu hystyried yng nghyd-destun y gofynion penodol y mae DLlC 2006 eisoes yn eu gosod ar y Cynulliad a Gweinidogion Cymru yng nghyswllt y ddyletswydd i weithio'n gydnaws â'r CEHD.

237. Yng ngoleuni'r cyd-destun hwnnw, nid yw'r Llywodraeth yn teimlo bod materion yn ymwneud â'r CEHD yn codi yng nghyswllt cymalau'r Bil, heblaw am y rhai a ddisgrifir isod. Yng nghyswllt pob un o'r cymalau isod, mae'r Llywodraeth wedi dod i'r casgliad, hyd yn oed lle gellir dadlau bod materion yn codi mewn perthynas â hawliau'r Confensiwn, nad oes unrhyw anghydnawsedd â'r CEHD.

**Anghymhwyso ASau rhag bod yn aelodau o'r Cynulliad: cymal 3**

238. Er bod yr hawl i etholiadau rhydd o dan Erthygl 3 o Brotocol 1 i'r CEHD yn ei gwneud yn ofynnol i wladwriaethau gynnal etholiadau sy'n sicrhau bod pobl yn cael y rhyddid i fynegi barn (gan gynnwys yr hawl i sefyll mewn etholiad), nid yw'r hawl hwnnw'n absoliwt a gall fod cyfyngiadau ynghlwm wrtho[8]. Yn M v UK er enghraifft, dywedodd (Cyfarfod Llawn) y Comisiwn "*the condition that one must not be a member of another legislature is a requirement which is reconcilable with the rights enshrined in Article 3 of the First Protocol*".[9]

239. Er y gellir dadlau o bosibl bod Erthygl 3 Protocol 1 yn berthnasol yng nghyswllt gwahardd mandadau deuol yn y Bil, mae'r Llywodraeth yn ystyried bod y cyfyngiad hwn yn gyfyngiad cymesur a rhesymol, sy'n ceisio sicrhau effeithiolrwydd y system etholiadol drwy sicrhau bod cynrychiolwyr etholedig yn gallu cyflawni eu mandad. Yn wir, mae'r Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus wedi argymell yn benodol y dylid gwahardd mandadau deuol yn ei adroddiad yn 2009 ar dreuliau ASau.[10]

---

[6] Adran 108(6)(c) o DLlC 2006.

[7] Adran 81(1) o DLlC 2006.

[8] Ahmed v United Kingdom (1998) 29 E.H.R.R. 1 (paragraff. 75).

[9] Rhif cais 10316/83, 7 Mawrth 1984, (Cyfarfod Llawn) y Comisiwn

[10] Committee on Standards in Public Life, MPs' Expenses and Allowances: Supporting Parliament, safeguarding the taxpayer, Tachwedd 2009. Gweler paragraff 12.22 ac Argymhelliad 40 yn http://www.official-documents.gov.uk/document/cm77/7724/7724.pdf.

240. Felly, mae'r Llywodraeth yn fodlon nad yw'r cyfyngiad ar yr hawl i fod yn AS ac yn AC ar yr un pryd yn atal yr hawl i sefyll mewn etholiad i'r fath raddau y mae'n amharu ar hanfod yr hawl neu'n ei wneud yn aneffeithiol. Caniateir i ymgeiswyr sefyll i'w hethol ar gyfer y Cynulliad a Thŷ'r Cyffredin a'u dewis hwy yw penderfynu pa un.

241. Mae'n werth nodi nad oes dim ASau ar hyn o bryd sydd hefyd yn ACau y byddai'r ddarpariaeth hon yn berthnasol iddynt. Hefyd, mae unrhyw un sydd o bosibl yn ystyried dilyn mandad deuol rhwng nawr a chychwyn y cymal hwn, wedi cael rhybudd am y ddarpariaeth hon ers i Bil drafft Cymru gael ei gyhoeddi ar 18 Rhagfyr 2013.

242. Er y gellir dadlau hefyd bod materion sy'n gysylltiedig â gwahardd gwahaniaethu (Erthygl 14 o'r CEHD) yn codi pan mae ACau yn cael eu gwahardd rhag bod yn ASau ond nid yn cael eu gwahardd rhag bod yn aelodau o Dŷ'r Arglwyddi, mae'r Llywodraeth yn fodlon bod cyfiawnhad gwrthrychol dros y gwahaniaeth yn y driniaeth ac na fyddai'n arwain at anghydnawsedd ag Erthygl 14. Yn amlwg, mae Tŷ'r Arglwyddi yn fath gwahanol o Siambr nad yw'r aelodau, at ei gilydd, yn cael cyflogau ac sydd yn draddodiadol wedi cyflawni gwaith arall ar ben bod yn aelod o'r Tŷ. Mae'r Llywodraeth yn ystyried bod gofynion aelodaeth Tŷ'r Arglwyddi yn wahanol (o ran llwyth gwaith a chyfrifoldeb) ac felly ni fyddai'r cyfryw ofynion yn cael yr un effaith ar y cyfrifoldebau a gyflawnir gan ACau.

**Cyfradd Treth Incwm Gymreig: cymal 8**

243. Yn amodol ar refferendwm, mae cymal 8 o'r Bil yn creu pŵer i'r Cynulliad osod y gyfradd dreth incwm i'w thalu gan drethdalwyr yng Nghymru ("*Welsh taxpayers*"). Yn ddibynnol ar y gyfradd dreth a osodir gan y Cynulliad, gallai unigolyn y mae'r diffiniad o drethdalwr yng Nghymru yn berthnasol iddo ganfod ei hun yn gorfod talu mwy neu lai o dreth nag unigolyn nad yw'r diffiniad hwnnw'n berthnasol iddo. Gellid dadlau y byddai hyn yn tarfu ar hawliau Erthygl 1 Protocol 1 yr unigolyn hwnnw, sef hawliau i'w eiddo gael ei ddiogelu o dan Erthygl 1 Protocol 1.

244. Er bod darpariaethau treth yn gyffredinol yn tueddu i godi materion sy'n ymwneud ag Erthygl 1 Protocol 1, mae ail baragraff yr Erthygl yn dweud yn benodol y caiff y Wladwriaeth orfodi'r cyfryw gyfreithiau sy'n ofynnol yn ei barn hi i sicrhau bod trethi neu gyfraniadau eraill yn cael eu talu. Mae'n amlwg o gyfreitheg Llys Hawliau Dynol Ewrop bod gan wladwriaethau sydd wedi contractio gryn dipyn o ryddid i ddehongli (*margin of appreciation*) wrth weithredu polisïau ym maes trethu.[11] Mae'r Llywodraeth yn ystyried bod y rhyddid eang hwn i ddehongli yn amlwg yn cynnwys y

[11] Yr achos amlwg yw National & Provincial Building Society and Others v. UK (1997) 25 EHRR 127. Hefyd, gweler y prif egwyddorion cyfreithiol ar A1P1 yng nghyswllt treth, sy'n cael eu crynhoi gan ECtHR ar dudalen 11 o MA v Finland (2003) 37 E.H.R.R. CD210.

polisi cyffredinol ynghylch datganoli'r disgresiwn i sefydlu ei chyfraddau treth ei hun neu beidio i lywodraeth ranbarthol.

245. Efallai y bydd trethdalwr yng Nghymru yn ceisio dadlau bod gorfod talu'r dreth Gymreig yn ei achos ef yn anghymesur oherwydd bod y diffiniad o drethdalwr yng Nghymru yn rhoi canlyniad ansicr yn ei achos benodol ef. Ond, mae'n debyg y byddai *unrhyw* ddiffiniad o drethdalwr yng Nghymru ("*Welsh taxpayer*") yn gallu rhoi canlyniadau anodd mewn achosion ymylol. Serch hynny, mae'r llysoedd wedi derbyn bod gan wladwriaethau sydd wedi contractio hawl i lunio llinellau clir ("bright lines") ac y gall achosion anodd ddisgyn ar y naill ochr neu'r llall i'r llinell.[12] Mae'r Llywodraeth yn fodlon bod y diffiniad yng nghymal 8 (a'r diwygiadau i'r diffiniad o drethdalwr yn yr Alban yng nghymal 10) wedi cael eu drafftio mewn ffordd resymegol a chymesur, fel y ceir cyn lleied â phosibl o ganlyniadau ansicr.

**Treth Gymreig ar drafodion tir a gwastraff a waredir mewn safleoedd tirlenwi (cymalau 14-18)**

246. O gofio bod y darpariaethau hyn i bob pwrpas yn darparu ar gyfer terfynu'r dreth tirlenwi a threth dir y doll stamp yng Nghymru, gyda'r Cynulliad yn cael y gallu i osod ei drethi ei hun yn y meysydd hyn o'r dyddiad hwnnw, nid yw'r Llywodraeth yn ystyried bod unrhyw anghydnawsedd yn bodoli mewn perthynas ag Erthygl 1 Protocol 1. Rhywbeth i'r Cynulliad ei ystyried fydd materion yn ymwneud â'r CEHD pan fydd yn deddfu yng nghyswllt unrhyw dreth tirlenwi neu dreth trafodion tir ddatganoledig newydd.

247. Fel y trafodwyd uchod, mae gan DLlC 2006 amddiffyniad ynddi yng nghyswllt y CEHD drwy ddarparu bod deddfwriaeth y Cynulliad y tu allan i'w gymhwysedd a heb fod yn gyfraith i'r graddau y mae unrhyw rai o'i ddarpariaethau'n anghydnaws â hawliau'r Confensiwn.

[12] Gweler, er enghraifft, Carson v UK (2010) 51 EHRR 369; and R (RJM) v Secretary of State for Work and Pensions [2008] UKHL 63, [2009] 1 AC 311.